

RTPI Cymru
Royal Town Planning Institute
Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol

Papur Ymchwil RTPI

IONAWR 2023

# Y SGWRS FAWR:

## Llesiant cynllunwyr a'r effaith ar y system gynllunio yng Nghymru

rtpi.org.uk

Rhif elusen gofrestredig: 262865
Rhif elusen gofrestredig yn yr Alban: SC 037841

**Mae RTPI yn hyrwyddo grym cynllunio i greu lleoedd llewyrchus a chymunedau bywiog. Mae gennym dros 27,000 o aelodau yn y sectorau preifat, cyhoeddus, academaidd a gwirfoddol a dros 1,300 o aelodau yng Nghymru. Gan ddefnyddio ein harbenigedd a'n hymchwil rydym yn cynnig tystiolaeth ac arweinyddiaeth syniadau i lunio polisïau a syniadau cynllunio, gan wneud y proffesiwn yn ganolog i ddadleuon mawr cymdeithas. Rydym yn gosod safonau addysg gynllunio ac ymddygiad proffesiynol sy'n rhoi gallu unigryw i'n haelodau, lle bynnag yn y byd y maent yn gweithio, i ymateb i heriau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymhleth.**

## Cydnabyddiaethau

**Mae RTPI Cymru yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn y Sgwrs Fawr gan rannu eu safbwyntiau a'u profiadau.**

# Cynnwys


Cynnwys ..... 3

Crynodeb Gweithredol ..... 4

1. Cyflwyniad ..... 6

2. Methodoleg / Yr hyn a wnaethom ..... 6

3. Cefndir ..... 8

3.1 Gwaith ymchwil diweddar yr RTPI y tu allan i Gymru ..... 9

3.2 Cyfleoedd a Heriau ..... 10

4. Sut mae eich llesiant? ..... 11

5. Canfyddiadau ..... 11

5.1 Llwyth Gwaith ..... 11

5.2 Gweithlu / Cyflogaeth ..... 13

5.3 Dealltwriaeth o Gynllunio a'i Wasanaethau ..... 16

5.4 Darparu Gwasanaethau Cynllunio ..... 18

5.5 Swyddogaeth a Diben Cynllunio ..... 25

5.6 Gweithio Digidol ..... 26

5.7 Gweithio hybrid / o bell ..... 27

5.8 Ymgysylltu â'r Cyhoedd ..... 29

6. Atebion a Awgrymir ..... 31

6.1 Adnoddau Sector Cyhoeddus ..... 31

6.2 Cydweithredu / cyfathrebu proffesiynol ..... 33

6.3 Datblygu gweithwyr ein hunain ..... 34

6.4 Hyfforddiant ..... 34

6.5 Ymgysylltu â'r Cyhoedd ..... 34

6.6 Gwleidyddion a Phwyllgorau Cynllunio ..... 35

6.7 Cynllunio Digidol ..... 35

6.8 Newidiadau i'r System Gynllunio ..... 35

6.9 Gweithio Rhanbarthol ..... 37

6.10 Rhannu Arferion Da ..... 37

7. Beth nesaf? ..... 38

# Crynodeb Gweithredol

Mae cynllunio yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gyflawni amrywiaeth eang o ganlyniadau gwerthfawr – mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth, datblygu economaidd a chefnogi cymunedau ledled Cymru. Fodd bynnag, cydnabyddir yn eang bod Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau), ynghyd â'r sector cyhoeddus ehangach, yn cael trafferth yn bodloni disgwyliadau a datgloi'r gwerth sydd gan gynllunio i'w gynnig gyda'r buddsoddiad presennol.

Gan ymateb i gais gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, i ddeall llesiant cynllunwyr yng Nghymru sy'n gweithredu o dan amgylchiadau heriol, mae RTPI Cymru wedi archwilio'r problemau, yr effeithiau, yr achosion a'r atebion posibl i gynorthwyo'r proffesiwn i ddarparu'r system gynllunio yng Nghymru, drwy'r Sgwrs Fawr. Nod y Sgwrs Fawr yw deall yn well y pwysau sy'n cael eu hwynebu a chynnal archwiliad o iechyd y proffesiwn yng Nghymru; mae'n cynnig sail dystiolaeth fanwl ar gyfer gweithredu. Mae'n cynnig dangosyddion o gamau y gallai amrywiaeth o randdeiliaid eu cymryd.

Mae'r Sgwrs Fawr yn canolbwyntio ar lesiant y rhai sy'n gweithio yn y system gynllunio ac yn ei darparu; nid yw'n adolygiad o'r system gynllunio na'i pholisïau ond mae'n myfyrio ar newidiadau a allai gynorthwyo'r problemau llesiant a nodwyd ac archwilio ffyrdd o leddfu pwysau.

Mae RTPI Cymru yn cydnabod nad yw mynd i'r afael yn llawn â'r diffyg o ran buddsoddiad a chyllidebau ar gyfer cynllunio ar hyn o bryd yn syml a bod angen ystyried atebion ychwanegol ehangach.

Fel y nodwyd eisoes gan Archwilio Cymru a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru, mae llwyth gwaith ACLlau wedi cynyddu ochr yn ochr â thoriadau sylweddol i gyllidebau. Canfu'r Sgwrs Fawr lefelau uchel o gynllunwyr yn cael eu gorymestyn yn eu gwaith ac roedd hyn yn cael effaith ar eu llesiant. Dywedodd 61% o'r holl ymatebwyr eu bod wedi'u gorymestyn sawl gwaith yr wythnos o leiaf, roedd 74% o swyddogion ACLl yn teimlo wedi'u gorymestyn; roedd canran syfrdanol o 21% o'r holl ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi'u gorymestyn drwy'r amser.

Nodwyd yr angen i gynllunio ddod yn fwy cydnerth fel proffesiwn ac yn enwedig cydnerthedd swyddogion cynllunio o ran ymdrin â sefyllfaoedd anodd a disgwyliadau uchel.

Er bod y Sgwrs Fawr wedi nodi gwendidau, mae hefyd yn eglur bod gwasanaethau yn parhau i gael eu darparu a bod cynllunwyr yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei ddarparu.

Nodwyd amrywiaeth eang o faterion fel y rheswm am y cynnydd i lwyth gwaith. Mae themâu ailadroddus yn cynnwys anawsterau adnoddau staff a recriwtio yn gysylltiedig â chyflog a thaliadau, disgwyliadau datblygwyr, eu hasiantau, y cyhoedd a gwleidyddion, ac ehangu gofynion cynllunio a phroses.

Nodwyd bod argaeledd swyddogion arbenigol eraill gan gynnwys ecolegwyr, swyddogion priffyrdd a draenio yn cael effaith ar lwyth gwaith hefyd. Nodwyd bod problemau adnoddau staff Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau hefyd. Roedd awgrym hefyd bod y sector preifat o dan bwysau a bod hyn yn arwain at ddyluniadau a cheisiadau o ansawdd gaeth, gan effeithio ymhellach ar lwyth gwaith ACLlau.

Codwyd diffyg buddsoddiad mewn adnoddau digidol i gynorthwyo'r ddarpariaeth gynllunio a symudiad i weithio hybrid ac o bell fel ffactorau hefyd.

Roedd lefelau brawychus o sarhau, wedi'i annog yn rhannol trwy gyfryngau cymdeithasol, a adroddwyd gan y rhai sy'n gweithio ym maes cynllunio, yn ogystal â bygythiadau, gan godi materion diogelwch. Mae'r lefelau cynyddol o gwynion ffurfiol ac anffurfiol yn cael effaith ar lwyth gwaith ac adnodd amser.

Cynigiwyd amrywiaeth o atebion sydd wedi'u canolbwyntio ar gynyddu adnoddau sector cyhoeddus i gefnogi cynllunio, i wella'r ddealltwriaeth o gynllunio i gefnogi ymgysylltiad a gwerthfawrogiad gan eraill o swyddogaeth cynllunio. Roedd hyn yn cynnwys darparu gwell gwybodaeth i'r cyhoedd, ond hefyd targedu uwch swyddogion mewn awdurdodau lleol, gwleidyddion a chyrff sector cyhoeddus eraill. Awgrymwyd hefyd y dylid archwilio cyfleoedd i dyfu'r proffesiwn ac annog newydd ddyfodiaid, yn ogystal â darparu hyfforddiant sgiliau ar draws y proffesiwn. Mae buddsoddi mewn cynllunio digidol yn faes y mae angen rhoi sylw iddo. Er nad oedd y Sgwrs Fawr yn adolygiad o'r system gynllunio, cafwyd rhai awgrymiadau ar gyfer diwygiadau i weithrediad y system i leddfu pwysau. Awgrymwyd cynllunio rhanbarthol fel ffordd o rannu gwaith casglu tystiolaeth a chyfuno adnoddau arbenigol. Yn olaf, roedd rhannu arferion da yn faes a godwyd ar gyfer darparu ffynhonnell o ddysgu a datblygu i unigolion a sefydliadau.

Bydd adroddiad hwn y Sgwrs Fawr yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru ar gyfer ei hymateb. Mae'r RTPI hefyd yn gallu ymateb i rai o'r materion a darparu cymorth a byddwn yn ymateb drwy ein cynllun gweithredu ein hunain.

# 1. Cyflwyniad

Mae cynllunio yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gyflawni amrywiaeth eang o ganlyniadau gwerthfawr – mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth, datblygu economaidd a chefnogi cymunedau ledled Cymru. Fodd bynnag, cydnabyddir yn eang bod Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau), ynghyd â'r sector cyhoeddus ehangach, yn cael trafferth yn bodloni disgwyliadau a datgloi'r gwerth sydd gan gynllunio i'w gynnig gyda'r buddsoddiad presennol.

Gan ymateb i gais gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, i ddeall llesiant cynllunwyr yng Nghymru sy'n gweithredu o dan amgylchiadau heriol, mae RTPI Cymru wedi archwilio'r problemau, yr effeithiau, yr achosion a'r atebion posibl i gynorthwyo'r proffesiwn i ddarparu'r system gynllunio yng Nghymru, drwy'r Sgwrs Fawr. Nod y Sgwrs Fawr yw deall yn well y pwysau sy'n cael eu hwynebu a chynnal archwiliad o iechyd y proffesiwn yng Nghymru; mae'n cynnig sail dystiolaeth fanwl ar gyfer gweithredu. Mae'n cynnig dangosyddion o gamau y gellid eu cymryd, nid yn unig gan yr RTPI, ond gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill hefyd.

Mae RTPI Cymru yn cydnabod nad yw mynd i'r afael yn llawn â'r diffyg o ran buddsoddiad a chyllidebau ar gyfer cynllunio ar hyn o bryd yn syml a bod angen ystyried atebion ychwanegol ehangach.

Mae'r Sgwrs Fawr yn canolbwyntio ar lesiant y rhai sy'n gweithio yn y system gynllunio ac yn ei darparu; nid yw'n adolygiad o'r system gynllunio na'i pholisïau ond mae'n myfyrio ar newidiadau a allai gynorthwyo'r problemau llesiant a nodwyd ac archwilio ffyrdd o leddfu pwysau.

# 2. Methodoleg / Yr hyn a wnaethom

Arolwg fu'r brif ffynhonnell ar gyfer ymchwilio i'r materion. Mae'r arolwg yn archwilio'r profiadau o weithio yn y system gynllunio heddiw ac fe'i bwriadwyd ar gyfer y proffesiwn cyfan.

Y nod oedd cael ymateb eang ar draws Cymru, gwahanol sectorau a rhannau o'r proffesiwn, a hefyd y rhai nad ydynt yn aelodau o'r RTPI. Fe'i hyrwyddwyd ymhlith holl aelodau'r RTPI yng Nghymru drwy e-bost ac yn ein e-fwletinau. Hefyd, anfonwyd negeseuon e-bost wedi'u targedu i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, Llywodraeth Cymru, ymgynghoriaethau cynllunio, a POSW (Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru) i annog ymgysylltiad.

Ategwyd yr arolwg gan gyfarfodydd bord gron a thrafodaethau gyda chynllunwyr ledled Cymru, gan gynnwys Cynllunwyr Ifanc Cymru.


Cynhaliwyd yr arolwg, a oedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, o ddechrau mis Awst tan 9 Medi. Cawsom ymateb da iawn i'r arolwg a rhannwyd gwybodaeth arbennig o werthfawr.

Gellir crynhoi'r gyfradd ymateb fel a ganlyn:

- Cyfanswm o 209 o ymatebion (7 yn Gymraeg)
- Tua 40 munud oedd yr amser cyfartalog a gymerwyd i ymateb, sy'n dangos yr ymdrech a wnaed gan yr ymatebwyr yn eu hymatebion
- Nid oedd 18% o'r ymatebwyr yn aelodau o'r RTPI (yn ymestyn y tu hwnt i aelodaeth yr RTPI)

- Mae 15% o'n haelodau yng Nghymru wedi ymateb – mae hon yn gyfradd uchel o'i chymharu ag arolygon eraill yr ydym wedi eu cynnal ac arolygon tebyg eraill
- Mae hyn yn codi i 21% os byddwch yn eithrio'r aelodau hynny nad ydynt yn gweithio ar hyn o bryd, fel myfyrwyr ac aelodau sydd wedi ymddeol (mae'n llai perthnasol iddyn nhw).
- Mae 23% o ymatebwyr yn y sector preifat, 63% mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol, 9% mewn sefydliadau sector cyhoeddus eraill, 3% 'arall' (y trydydd sector yn bennaf) a 2% ddim yn gweithio, sy'n adlewyrchu aelodaeth yr RTPI.
- Mae gwasgariad daearyddol yr ymatebion yn cyd-fynd â'r boblogaeth gyffredinol. (18% Cymru gyfan, 11% Canolbarth Cymru, 20% Gogledd Cymru, 37% De-ddwyrain Cymru, 14% De-orllewin Cymru).

O ran swyddogaethau, roedd gwasgariad yr ymatebwyr fel a ganlyn:




Mae'r gyfradd ymateb yn rhoi hyder i ni bod canlyniadau'r arolwg yn ddibynadwy ac yn gynrychiadol.

Rydym hefyd yn nodi cyfarfod Bwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2022, a drafodwyd mewn Adolygiad Perfformiad Cynllunio[1] a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio gyda chymorth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Comisiynwyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Aelodau Etholedig a rhai trigolion lleol ynghylch perfformiad y Cyngor ym maes cynllunio. Rydym wedi myfyrio ar ganfyddiadau allweddol yr adroddiad hwn lle mae'n darparu tystiolaeth i'r Sgwrs Fawr hefyd.


[1] https://moderngov.wrexham.gov.uk/documents/s24598/Item%2011.pdf?LLL=0

# 3. Cefndir

Er mwyn i’r system gynllunio yng Nghymru gyflawni ei dyletswyddau statudol a chreu lleoedd o ansawdd, mae angen critigol am ragor o fuddsoddiad. Mae adrannau ACLlau wedi’u tanariannu’n sylweddol, ac mae gwaith ymchwil yn dangos mai gwasanaethau cynllunio sy’n dioddef yn fwyaf difrifol o’r holl wasanaethau llywodraeth leol oherwydd toriadau i gyllidebau.

Yn 2019, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad ar adolygiad cenedlaethol o’r system gynllunio yng Nghymru. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar holl swyddogaethau allweddol ACLlau – polisi cynllunio, rheoli datblygiad, a rheoli adeiladu. Ar y cyfan, amlygodd yr adolygiad system gynllunio a oedd yn cael trafferth yn cyflawni uchelgeisiau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ac yn gweithredu polisi cenedlaethol. Yn benodol o ran rheoli datblygiad, canfu’r adolygiad bod capasiti wedi’i ymestyn, bod awdurdodau cynllunio yn cael trafferth yn darparu swyddogaethau allweddol, a bod cynnydd cyfyngedig o ran gwella cydnerthedd.

Mae dadansoddiad gan Archwilio Cymru[2] yn dangos “*fod yr holl wasanaethau cynllunio – polisi, datblygu a rheoli adeiladu – wedi profi toriadau sylweddol mewn gwariant ers 2008-09 gyda chyllidebau wedi gostwng 50% mewn termau real, gan ystyried chwyddiant. Mae gwariant net wedi gostwng o £45.1 miliwn yn 2008-09 i £22.8 miliwn yn 2017-18. I gyllidebau rheoli datblygu y bu’r gostyngiad mwyaf lle mae gwariant wedi gostwng 59%*.”




Cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru ei adroddiad ar Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru[3] ym mis Mehefin 2020. Nododd yr adroddiad:

> **“Ein casgliad cyffredinol yw bod Cynllunio yn hollbwysig ond ar hyn o bryd nid yw’n gallu cyflawni amcanion y Ddeddf Cynllunio, Deddf yr Amgylchedd na Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol oherwydd gostyngiad mewn adnoddau.”**

---

[2] https://www.archwilio.cymru/sites/default/files/publications/planning-services-2019-full-report-welsh.pdf
[3] https://busnes.senedd.cymru/documents/s102542/Adroddiad%20Pwyllgor%20-%20Effeithlonrwydd%20Awdurdodau%20Cynllunio%20Lleol%20yng%20Nghymru%20Mehefin%202020%20PDF%201152.pdf

Daeth y Pwyllgor i'r un casgliadau ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r broblem nad yw gwasanaethau cynllunio yn cael adnoddau digonol i gyflawni eu swyddogaeth bwysig. Mae hon yn broblem hollbwysig ac wedi cynyddu o ran pwysigrwydd yn yr ymateb sydd ei angen i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau economaidd a seiliedig ar le a achoswyd ac a amlygwyd gan y pandemig. Mae sefyllfa'r cyfyngiadau symud hefyd wedi tynnu sylw ehangach at werth cadarnhaol ein hardaloedd a'n cymunedau lleol, lefelau is o lygredd a manteision cerdded a beicio. Gall cynllunio helpu i gadw ac ymwreiddio'r manteision hyn.

Croesawodd RTPI Cymru sylw'r Pwyllgor i'r angen i gydnabod a chodi statws pwysigrwydd canolog cynllunio i lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

## 3.1 Gwaith ymchwil diweddar yr RTPI y tu allan i Gymru

### 3.1.1 Yr Alban

Cyhoeddodd RTPI yr Alban ei ddadansoddiad[4] o adnoddau yng ngwasanaeth cynllunio'r Alban yn 2022. Mae hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bod cyllidebau awdurdodau cynllunio wedi lleihau 38% mewn termau real ers 2009. Dyma'r canfyddiadau allweddol:

- Y gwasanaeth cynllunio yw un o'r gwasanaethau llywodraeth leol a effeithiwyd yn fwyaf difrifol o bob un ohonynt o ran cyllidebau gyda gostyngiad o 38% ers 2010;
- Mae chwarter staff adrannau cynllunio wedi eu torri ers 2009;
- Nid yw ffioedd ceisiadau cynllunio yn talu costau prosesu ceisiadau cynllunio;
- Mae'r Ddeddf Gynllunio newydd wedi cyflwyno 49 o ddyletswyddau heb eu hariannu i awdurdodau lleol a allai gostio rhwng £12.1 miliwn a £59.1 miliwn dros ddeng mlynedd i'w gweithredu;
- Amcangyfrifir y bydd gan y sector cynllunio alw ar gyfer 680 – 730 o newydd ddyfodiaid ychwanegol i'r sector dros y 10 i 15 mlynedd nesaf; ac
- Mae gan y gweithlu cynllunio heriau demograffig ac olyniaeth yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor.

### 3.1.2 Gorfodaeth yn Lloegr

Yn Lloegr, ar gais Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Llywodraeth y DU, cyhoeddodd yr RTPI waith ymchwil[5] yn 2022 gyda'r nod o gael dealltwriaeth fwy eglur o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad o ran gorfodaeth gynllunio.

Nododd y gwaith ymchwil argyfwng o ran gorfodaeth gynllunio â llwythi gwaith gormodol a staff annigonol, yn arwain at anallu i fodloni galw'r cyhoedd.

[4] www.rtpi.org.uk/research/2022/december/resourcing-the-planning-service-key-trends-and-findings-2022/
[5] www.rtpi.org.uk/research/2022/november/planning-enforcement-resourcing/

## 3.2 Cyfleoedd a Heriau

Fe wnaethom ofyn beth oedd y cyfleoedd a'r heriau mwyaf i'r proffesiwn a chynllunwyr yng Nghymru, ac rydym wedi crynhoi'r rhain isod er mwyn helpu i bennu'r cyd-destun ar gyfer y Sgwrs Fawr.

### 6.1 Cyfleoedd

Mae gan gynllunio yng Nghymru y cyfle i greu newid cadarnhaol a rhagweithiol ac i annog dylunio o ansawdd gwell ac adeiladu sy'n fwy ystyriol o'r amgylchedd.

Cael ein cydnabod fel yr arweinwyr o ran hyrwyddo a darparu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chodi'r proffil cynllunio.

Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae cynllunio yn ei wneud at eu hagenda.

Bydd sicrhau gweithlu iau newydd yn creu dynameg newydd.

Darparu cynlluniau, cartrefi, cymunedau ardderchog, gwella seilwaith, gwell cymunedau, darparu swyddi.

### 6.2 Heriau

ACLlau ag adnoddau annigonol gan gynnwys recriwtio a chadw swyddogion cymwys, ei wneud yn ddeniadol i bobl ifanc a chyflogau.

Codi'r newid yn yr hinsawdd / adfer natur i frig yr agenda mewn polisi cenedlaethol a rhanbarthol.

Codi proffil y proffesiwn yn enwedig gyda gwleidyddion lleol a chynrychiolwyr etholedig nad ydynt yn deall y system gynllunio ac nad yw'n ymddangos eu bod yn ei gwerthfawrogi a'r sylw negyddol yn y wasg.

Trosglwyddo profiad ymlaen i gydweithwyr ifanc.

Cysondeb penderfyniadau a gwella datblygiad.

Rhanddeiliaid yn rhy anatebol am eu gweithredoedd a'r goblygiadau y mae'n ei gael i'r broses gynllunio.

Tybiaeth y cyhoedd o'r swyddogaeth a'r diddordeb annigonol hwn mewn pobl yn ymuno â'r proffesiwn ac yn dilyn gyrfa ym maes cynllunio.

Staff gwybodus a phrofiadol yn drifftio i'r sector preifat.

# 4. Sut mae eich llesiant?

Roedd llesiant y rhai sy'n darparu'r system gynllunio yn ganolog i gais y Gweinidog am y Sgwrs Fawr.

> **"Nodi camau i amddiffyn a chryfhau'r proffesiwn i allu cyflawni'r gwaith hanfodol bwysig yr ydym yn gofyn iddo ei wneud." Julie James AS, Gweinidog Newid Hinsawdd**

Rhannodd ymatebwyr eu profiadau â ni gan gyflwyno'n eglur yr amgylchedd heriol y maent yn gweithredu ynddo.

> **"Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf [yn ystod y pandemig] wedi bod yn eithriadol o heriol ac wedi gadael eu creithiau seicolegol."**

Canfu'r arolwg lefelau uchel o gynllunwyr yn cael eu gorymestyn yn eu gwaith ac roedd hyn yn cael effaith ar eu llesiant. Dywedodd 61% o'r holl ymatebwyr eu bod yn cael eu gorymestyn sawl gwaith yr wythnos o leiaf, ac roedd 74% o swyddogion ACLlau yn teimlo wedi'u gorymestyn; roedd canran syfrdanol o 21% o'r holl ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi'u gorymestyn drwy'r amser. Dim ond 9% o'r ymatebwyr sy'n teimlo nad ydynt wedi'u gorymestyn ac er bod 6% arall wedi'u gorymestyn, roeddent yn ei hoffi felly.

> **"Cyfuniad o lai o staff, cynnydd i ohebiaeth ddiangen, llwyth gwaith / cymhlethdod diangen mewn rhai prosesau syml."**

> **"Ni allaf i wir fynegi pa mor anodd yw cynllunio fel gyrfa ar hyn o bryd. Roedd yn arfer cynnig boddhad a bellach mae'n teimlo fel cerdded trwy driog (hyd yn oed ar gyfer ceisiadau a ddylai fod yn syml), oherwydd penderfyniadau chwerthinllyd sy'n cael eu gwneud gan awdurdodau lleol (cynghorwyr yn bennaf, nid swyddogion) a Llywodraeth Cymru."**

Yn y sefyllfa bresennol gyda'r argyfwng costau byw ac ati, codwyd pryder na fydd yn berthnasol i'r proffesiwn cynllunio yn unig:

> **"Mae'r pryder o dalu biliau a gweithio yn llethol ar adegau."**

Nodwyd yr angen i gynllunio ddod yn fwy cydnerth fel proffesiwn ac yn enwedig cydnerthedd swyddogion cynllunio o dan ymdrin â sefyllfaoedd anodd a disgwyliadau uchel.

# 5. Canfyddiadau

Mae effeithiau'r toriadau i gyllidebau a'r effaith ar y rhai sy'n gweithio ym maes cynllunio yng Nghymru yn aml-ffased, ac rydym yn cyflwyno'r prif rai a godwyd yn y Sgwrs Fawr yma.

## 5.1 Llwyth Gwaith

> **"Mae angen taer am atebion i fynd i'r afael â phroblemau llwyth gwaith."**

Hysbysodd mwyafrif yr ymatebwyr gynnydd i'w llwyth gwaith a'u cylch gwaith yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r arolwg yn hysbysu am gyfnodau sylweddol o amser pan nad yw'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn gallu cyflawni eu gwaith. Mae mwyafrif yr ymatebwyr o ACLlau (74%) yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gorymestyn sawl gwaith neu fwy yr wythnos. Mae hyn yn llai gwir ymhlith y rhai mewn sectorau eraill, yn enwedig ymatebwyr o ymgynghoriaethau preifat a oedd yn teimlo wedi'u gorymestyn ar sail achlysurol yn bennaf. Yn bennaf, ymatebwyr rhwng 45 a 64 oed sy'n cael eu gorymestyn drwy'r amser, sy'n fwy na'r grwpiau oed eraill; gallai hyn fod oherwydd profiad a swyddi lefel uwch sydd wedi cynyddu cyfrifoldebau neu oherwydd portffolios ehangach.

Mae'r data yn dangos yn eglur mai'r rhai sy'n gweithio ym maes gorfodi sydd fwyaf tebygol o deimlo wedi'u gorymestyn drwy'r amser (37.1%), wedi'u dilyn gan Gynllunwyr Rheoli Datblygiad (29.2%) ac yna Rheolwyr (27.1%).

Roedd y nifer fwyaf o'r rhai sydd wedi'u gorymestyn drwy'r amser yn dod o blith ymatebwyr yng Ngogledd, De-ddwyrain a De Cymru. Ac roedd canran yr ymatebwyr a oedd wedi gweld cynnydd dros y chwe mis diwethaf wedi dyblu yng Nghanolbarth Cymru. Dylid nodi bod pob Rhanbarth ledled Cymru wedi'i orymestyn yn achlysurol o leiaf, ac yn aml yn fwy mynych.

Ar draws bob sector, gellir gweld bod cyfnodau sylweddol pan nad oes digon o amser i gyflawni llwythi gwaith. Nid oedd gan 20% o ymatebwyr o ACLlau fyth ddigon o amser ac mae 50% yn cael cyfnodau sylweddol pan nad oes digon o amser.

Mae'n ymddangos bod patrwm cyffredin bod y llwyth gwaith wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf i tua 60% o'r ymatebwyr. Mae hyn yn cyfeirio at y pandemig a'r adferiad, ar ben cyfnodau o gyni cyllidol a chyfyngiadau ar gyllidebau sector cyhoeddus.

Ceir diffyg eglur o amser digonol hefyd i Lywodraeth Cymru gyflawni eu gwaith. Amlygwyd capasiti Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru fel problem, â llai o staff yn effeithio ar y gallu i gefnogi'r system o ran diweddaru polisi a chynorthwyo'r broses o gyflwyno a gweithredu gwaith cynllunio. Mae hyn yn effeithio ar bawb arall sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cynllunio.

> **"Mewn gwirionedd, i gynllunwyr sector preifat, y brif broblem … yw llwyth gwaith, sy'n cael ei gwaethygu ar hyn o bryd gan nad oes digon o gynllunwyr. Mae recriwtio yn hunllef lwyr."**

Mater a godwyd ar draws ymatebwyr sector cyhoeddus:

> **"Mae hi mor rhwystredig i deimlo na allwn ddarparu'r gwasanaeth [ACLl] effeithiol hwnnw. Nid dyna y mae'r un ohonom ni ei eisiau."**

Codwyd amrywiaeth eang o faterion o ran y rheswm am y cynnydd i'r llwyth gwaith. Dyma'r themâu a oedd yn ymddangos dro ar ôl tro:

- Adnoddau staff
- Problemau gweithredu
- Disgwyliad y cyhoedd
- Ehangu cynllunio
- Gofynion proses
- Gwleidyddiaeth

Ar draws y rhan fwyaf o'r ymatebion a'r trafodaethau yn ymwneud â'r Sgwrs Fawr, roedd angen cyffredin a nodwyd am lawer iawn yn fwy o adnoddau i fynd i'r afael â'r problemau.

> **"Mae'r toriadau dros y degawd diwethaf wedi cael effaith niweidiol ar y sector".**

> **"Mae gofynion ar y sector yn parhau i gynyddu, ac mae disgwyliadau'r cyhoedd a datblygwyr yn uchel iawn".**

> **"Prin yw'r gydnabyddiaeth o'r ymrwymiad enfawr a roddir gan swyddogion cydwybodol".**

> **"Mae'r sector mewn cyflwr gwael iawn – nid yw hyn yn gynaliadwy o gwbl".**

Roedd llawer o ymatebwyr sector preifat yn teimlo y byddai rhoi adnoddau i ACLlau yn ateb i'r problemau llwyth gwaith.

> **"Mae wedi dod yn gynyddol anodd siarad gyda chynllunwyr Awdurdod Lleol a chael ymateb defnyddiol ganddyn nhw. Mae hyn yn effeithio ar fy ngwaith i a'r safbwynt cleientiaid ohonom ni yn y sector preifat gan nad ydyn nhw'n ein credu pan fyddwn ni'n dweud na allwn ni gael ymateb neu gael sgwrs."**

> **"Bydd awdurdodau lleol â mwy o adnoddau a staff, â gwell diwylliant o ymdrin yn uniongyrchol â chwsmeriaid, yn fwy parod i siarad, hygyrch ac adeiladol yn lleihau'r amser sy'n cael ei wastraffu a straen i mi a llai o anobaith a digalondid ymhlith cleientiaid."**

Roedd llawer o safbwyntiau cadarnhaol hefyd, fel:

> **"Rwy'n gweithio gyda thîm ardderchog felly byddai'n rhaid iddi fod yn swydd ddiddorol iawn sy'n talu'n dda i mi ystyried gadael."**

Tynnodd yr adroddiad i Gyngor Wrecsam[6] sylw hefyd at yr angen am adolygiad o adnoddau staff:

> **"Mae pwysau ariannol dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at ostyngiadau i lefelau staffio yn y sefydliad arferol. Hefyd, yn gyffredin â llawer o awdurdodau, mae Wrecsam wedi cael problemau yn recriwtio a chadw staff, yn enwedig swyddogion cynllunio â chymwysterau priodol. Mae hyn wedi golygu bod staff wedi bod yn gweithio o dan bwysau sylweddol a lle mae staff wedi newid swyddi i ymdrin â chyfnodau brig o ran llwyth gwaith, mae'r problemau wedi eu gwaethygu gan ddiffyg parhad."**

## 5.2 Gweithlu / Cyflogaeth

Codwyd y diffyg adnoddau staff yn gyson gan y mwyafrif o ymatebwyr fel rheswm am gynnydd i lwythi gwaith, wedi'i waethygu gan yr angen i wneud gwaith ychwanegol oherwydd swyddi gwag ac absenoldeb salwch.

Un ffactor pwysig yw cydnabod y darlun ehangach o 'adnoddau' a materion rhyng-gysylltiedig cyllidebau, sgiliau, profiad, cyflogau, hyfforddiant, a chyfleoedd datblygiad gyrfaol o ran recriwtio.

[6] https://moderngov.wrexham.gov.uk/documents/s24598/Item%2011.pdf?LLL=0

### 5.2.1 Recriwtio

Mae recriwtio yn her sylweddol i bawb. Mae recriwtio pobl ddawnus yn anodd yng Nghymru oherwydd y gronfa fach o gynllunwyr, ceir llawer o gystadleuaeth ac "*rydym ni'n gweld chwyrligwgan yn y sectorau cyhoeddus a phreifat*" …. "*sy'n creu amgylchedd gwaith ansefydlog".*

> **"Mae gennym nifer o swyddi gwag ac mae'n anodd iawn recriwtio'r swyddogion iawn".**

Ceir angen a nodwyd hefyd am staff mwy profiadol ac arbenigol.

Mae'r rhai â chontractau dros dro yn eu strwythur yn cyfeirio at rywfaint o hyblygrwydd ond hefyd byddai'r anallu i adnewyddu contractau dros dro yn cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth. Ceir perygl hefyd y gellid colli cyflogeion dros dro pe baent yn chwilio am swyddi parhaol yn rhywle arall.

Roedd yr ymatebion yn dynodi bod timau cynllunio llai, â llai o gapasiti i ymdopi pan fydd salwch a swyddi gwag ac ati, yn cael eu hymestyn yn arbennig o ran staffio a llwyth gwaith, gyda'r anawsterau ychwanegol o recriwtio mewn ardaloedd gwledig o Gymru. Prin hefyd yw'r cwmpas ar gyfer datblygiad gyrfaol yn yr achosion hyn.

Mae'r angen am y Gymraeg fel gofyniad hanfodol i ddeiliaid swyddi yn fater sy'n cymhlethu'r gallu i recriwtio cynllunwyr mewn nifer o ardaloedd ledled Cymru.

### 5.2.2 Cyflog a Thaliadau

Ystyriwyd nad oedd cyflogau yn ddigon cystadleuol i ddenu'r dalent priodol sydd ei angen, ac "*o'i gymharu â phroffesiynau eraill, … yn enwedig yng Nghymru, a allai fod yn achosi problemau recriwtio*."

Codwyd un mater penodol yn ymwneud â chyflogau llywodraeth leol sy'n cael eu hasesu trwy broses Gwerthuso Swyddi safonol. Mae hyn yn cyfyngu'r cyfle i gynyddu cyflogau i'w gwneud yn gystadleuol ac yn ddeniadol i ddarpar ymgeiswyr. Amlygwyd sawl achos diweddar lle na wnaeth yr un ymgeisydd ymgeisio am swyddi.

Problem sy'n benodol i faes cynllunio a gydnabuwyd gan ymatebwyr ar draws pob sector oedd "*Rydym ni'n ymdrin â llawer o bethau dadleuol ym maes cynllunio." Mewn llywodraeth leol "Ceir swyddogion sy'n rheolwyr prosiect nad ydynt yn ymdrin â [materion dadleuol] ac yn cael tâl tebyg.*" Ystyriwyd nad yw ymrwymiad ac arbenigedd yn cael eu gwobrwyo'n deg. Mae'n ymddangos mai prin yw'r cymhelliad i bobl ddod yn Siartredig a meddu ar y manteision a ddaw gyda gweithiwr proffesiynol.

### 5.2.3 Newidiadau Gyrfaol

Mae'n ymddangos bod y mwyafrif o bobl eisiau aros yn eu swydd neu swyddogaeth gynllunio, ond mae tua 10% eisiau gadael maes cynllunio. ACLlau sydd â'r ganran uchaf o ymatebwyr sy'n dymuno gadael y maes cynllunio (15%), yn ogystal â'r ganran uchaf o'r rhai sy'n chwilio am swydd arall ym maes cynllunio (24%). Fodd bynnag, dylid nodi bod mwyafrif cryf ym mhob sector sy'n bwriadu aros yn eu swydd bresennol (89.4%), sy'n gadarnhaol.

Y rhai mewn swyddi gorfodi oedd y mwyafrif a oedd yn bwriadu symud y tu allan i faes cynllunio – canran o 14.3%, ac yna rheolwyr datblygiad, polisi cynllunio ac adfywio.

### 5.2.4 Cymorth Cyflogwyr

Ceir cydnabyddiaeth gan ymatebwyr o ACLlau yn gyffredinol o gymorth gan gyflogwyr (Rhywfaint - 65%), ond dim ond un rhan o dair o Gynllunwyr Rheoli Datblygiad a Swyddogion Gorfodi sydd o'r farn eu bod yn cael y cymorth iawn. Mae 64% o ymatebwyr ymgynghoriaethau preifat o'r farn eu bod yn cael digon o gymorth.

Mae pob grŵp oed yn cael lefelau cymharol debyg o gymorth; er roedd y nifer fwyaf a oedd yn dynodi nad ydynt yn derbyn y cymorth iawn yn y grwpiau 18-24 a 55–64 oed (21 a 25% yn eu trefn).

### 5.2.5 Hyfforddiant a datblygiad

Ystyriwyd bod hyfforddiant yn broblem i'r sectorau preifat a chyhoeddus. Roedd un ymatebwr o ACLl yn teimlo "*Hyfforddiant amhriodol – heb ddigon o bwyslais ar sgiliau dylunio ac [efallai] cynnydd i asiantau nad ydynt wedi'u hyfforddi'n bensaernïol*." Nododd ymatebwr arall, "*Nid oes gen i unrhyw hyfforddiant arbenigol a byddwn yn methu wrth gael fy nghroesholi mewn apêl*."

Mae cymorth ar gyfer hyfforddi a datblygu wedi lleihau ac mae'n cael ei effeithio ar sail amser o fynychu a chyllidebau llai, gan gynnwys ar gyfer teithio os yw'n opsiwn wyneb yn wyneb, sy'n cynnig manteision eraill i hyfforddiant ar-lein gyda'r cyfle ar gyfer cyfnewid profiadau a thrafodaethau ehangach.

Amlygwyd mentora gan aelodau staff uwch fel mantais, yn enwedig i aelodau newydd o dimau. Amlygwyd cyngor a chymorth anffurfiol gan gydweithwyr profiadol fel ffordd dda ymlaen, ond mae patrymau gwaith newydd a chyfanswm y gwaith yn ei gwneud yn anodd mabwysiadu perthynas fentora rhwng cydweithwyr mwy a llai profiadol.

### 5.2.6 Adnoddau Staff Ehangach

Er bod yr angen am gynllunwyr cymwysedig ychwanegol (ar bob lefel) yn hollbwysig, mae un o'r problemau mwyaf ar hyn o bryd yn ymwneud â 'swyddogaethau ategol' a'u hanallu eu hunain i ddod o hyd i staff a'u cadw, ym meysydd bioamrywiaeth a draenio yn nodedig. Fel cynllunio, mae'r swyddogaethau hollbwysig hyn wedi'u tanariannu yn yr un modd ac yn dioddef o ddiffyg llwybrau hyfforddi i sicrhau y gall ACLlau gefnogi'r ddarpariaeth o ddatblygiad o ansawdd yn gyflym.

> **"Nid yw blaenoriaethau disgyblaethau y mae'r gwasanaeth cynllunio yn dibynnu arnynt bob amser yn ymateb i ymgynghoriadau cynllunio."**

Nododd un ymatebwr o ACLl y bydd dyletswyddau newydd, pan ddaw'r TAN15 newydd i rym, yn anodd eu hasesu heb fewnbwn arbenigol e.e. cynlluniau draenio dŵr wyneb. Ystyriwyd mai bioamrywiaeth / ecoleg a llifogydd / draenio oedd y materion arbenigol mwyaf anodd sydd angen adnoddau. Fodd bynnag, mae Asesu Effaith a hyfywedd yn dynn ar eu sodlau.

Nodwyd bod pwysigrwydd adnoddau digonol i gynorthwyo ymgyngoreion statudol a sefydliadau a gwasanaethau eraill sy'n gweithio'n agos gyda maes cynllunio angen sylw hefyd. Daeth yr angen am fewnbwn prydlon o ansawdd uchel gan ymgyngoreion arbenigol a statudol i'r amlwg yn gryf ac eto mae'n gysylltiedig â'r mater o adnoddau ar gyfer gwasanaethau cynllunio a chymorth.

> **"Mae perfformiad yn dibynnu ar gyflymder ein hymgyngoreion fel Priffyrdd ac Ecoleg ac mae'r adrannau awdurdod lleol hyn hefyd yn cael trafferthion gydag adnoddau a recriwtio sy'n golygu na allant ymateb yn gyflym neu'n llawn ac mae hyn yn effeithio ar wasanaethau ACLl o ran y gallu i ddarparu penderfyniadau prydlon a chytbwys a thybiaeth cwsmeriaid o'r broses gynllunio."**

Codwyd cyfraniadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn benodol, yn ogystal ag ymgyngoreion rhanddeiliaid / statudol eraill. Dywedwyd bod ymgysylltiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn wael a'u bod yn aml yn gwrthod tâl am geisiadau am gyngor neu drafodaeth, a bod anghysondebau sylweddol rhwng cyngor ar draws rhanbarthau Cymru.

Codwyd hefyd yr angen i Cadw gynnig gwasanaeth cyngor ffurfiol wrth benderfynu ar geisiadau am gydsyniad Adeiladau Rhestredig a cheisiadau cynllunio a allai effeithio ar ased treftadaeth yn yr un ffordd y mae Cyfoeth Naturiol yn darparu cyngor i ACLlau.

Codwyd cymorth cyfreithiol i ACLlau fel problem:

> **"Diffyg cymorth cyfreithiol priodol ym maes cynllunio yn amrywio o ddarparu rhwymedigaethau cynllunio i gyngor / canllawiau arbenigol ar faterion cyfreithiol / dehongliad o gyfraith achosion."**

Amlygwyd hefyd bod gwasanaethau llywodraeth leol eraill yn effeithio ar wasanaethau cynllunio yn anuniongyrchol. Er enghraifft, capasiti Adrannau Adnoddau Dynol i gefnogi ymarferion recriwtio a nododd un achos yr oediadau amser a achoswyd gan gyfieithu i'r Gymraeg, gan ddynodi bod y system gymorth ehangach angen adnoddau hefyd. Codwyd y mater o gyfieithu i'r Gymraeg yn benodol o ran drafftio Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl): "*Mae cyfieithu i'r Gymraeg ar ein cofrestr risg bellach ar gyfer darparu'r CDLl yn unol â'r amserlenni angenrheidiol*."

> **"Mae'r angen i gyfieithu pob dogfen dechnegol sy'n hysbysu'r sail dystiolaeth i'r Gymraeg yn cael effeithiau negyddol ar amserlenni darparu a pharatoi, yn enwedig gyda'r angen i flaenlwytho i gyrraedd Strategaeth a Ffefrir. Gyda phob ewyllys da yn y byd, dim ond nifer benodol o gyfieithwyr Cymraeg sy'n gallu ymdopi â dogfennau cynllunio technegol ac maen nhw'n cael eu tynnu mewn nifer o gyfeiriadau."**

## 5.3 Dealltwriaeth o Gynllunio a'i Wasanaethau

Mae gwell dealltwriaeth nad ymarfer 'ticio blwch' yn unig ymhlith y rhai y tu allan i'r proffesiwn yn hanfodol. Awgrymwyd bod angen cydnabyddiaeth bod cynllunio yn broffesiwn a safonau angenrheidiol o uchel a gwerthfawrogiad o gymhlethdod ei brosesau. Byddai dealltwriaeth o effeithiau manteisiol ehangach cynllunio da yn dod â manteision i awdurdodau lleol, busnesau a chymunedau.

### 5.3.1 Cyfryngau

Codwyd effaith diffyg gwerthfawrogiad tybiedig Llywodraeth y DU o gynllunio gan ymatebion sector preifat a chyhoeddus; teimlwyd bod cynllunio yn cael ei ddefnyddio fel "*pêl droed wleidyddol*" ac mae hyn yn cael ei adrodd gan gyfryngau'r DU ac yna mae'r negeseuon yn cael eu clywed gan y cyhoedd yng Nghymru, er bod y system gynllunio wedi'i datganoli ac yn gweithredu'n wahanol.

Awgrymwyd bod angen i gyfryngau lleol fod yn fwy gwybodus am gynllunio, gan fod adroddiadau presennol yn "*tueddu i ysgogi camdybiaethau*". Y broblem "*yw'r tanseilio a'r feirniadaeth gyson o'r proffesiwn gan y cyfryngau, gwleidyddion, enwogion ar y teledu ac ati ar bob cyfle*".

Amlygodd nifer o ymatebwyr yr angen i'r RTPI fod yn fwy rhagweithiol gyda'r cyfryngau i gefnogi cynllunwyr a "*chodi eich llais ar ein rhan*". Awgrymwyd bod proffesiynau eraill yn fwy llafar na'r RTPI ar y materion hyn.

**“Rydym ni’n broffesiwn ynysig iawn sy’n aml yn siarad â’n hunain i raddau helaeth. Mae angen i ni fod yn fwy llafar a chymryd camau i ledaenu’r neges gadarnhaol. Mae angen lledaenu’r neges hon ymhlith gwleidyddion a’r rhai nad ydynt yn wleidyddion.”  Ceir “swyddogaeth fawr i’r RTPI sy’n amlwg yn fwy tawel ac yn cael llai o effaith na chyrff proffesiynol tebyg.”**

### 5.3.2 Dealltwriaeth Sector Cyhoeddus Corfforaethol

Yn enwedig yn ymatebion gan ACLlau, nodwyd angen am werthfawrogiad a dealltwriaeth ehangach o wasanaethau gan uwch reolwyr mewn awdurdodau lleol.  “*Nid oes unrhyw ymwybyddiaeth gorfforaethol o gymhlethdod cynllunio a’r pwysau sydd ar y sector a’r rhai sy’n gweithredu yn y sector hwn*.”

**“Ar y lefel uchaf, ceir diffyg dealltwriaeth weithiau o ba mor anodd yw cynllunio fel maes gwaith – ceir tybiaeth bod llawer o broblemau ac adborth negyddol o’r tu allan i’r sefydliad yn golygu bod y gwasanaeth cynllunio yn methu – ond ni allai dim fod ymhellach o’r gwir.”**

**“Mae’r pwysau i fod o gymorth ac yn ‘ystyriol o ddatblygwyr’ yn arwain yn anochel at rai cyfaddawdau o ran moeseg broffesiynol. Ni chyflwynir safbwyntiau cytbwys i bwyllgorau nac mewn adroddiadau bob amser.”**

**“Ceir diffyg cydnabyddiaeth ar draws y sefydliad ehangach o’r hyn yw cynllunio, yr hyn y mae cynllunio yn ei wneud a manteision cynllunio da.”**

Disgrifir gwasanaethau cynllunio yn aml fel rhwystr, problem, neu rywbeth i’w oresgyn.

**“Mae hyn yn ddigalon, yn lladd brwdfrydedd a pha un a yw’n fwriadol ai peidio yn tanseilio’n weithredol ar adegau. Byddai’r gydnabyddiaeth a’r gefnogaeth ehangach hon yn gwneud gwahaniaeth enfawr o ddydd i ddydd.”**

### 5.3.4 Aelodau a Gwleidyddion

Codwyd gwleidyddiaeth leol yng nghyswllt llwyth gwaith, gan ddynodi bod mwy o ddiddordeb gwleidyddol mewn mân feysydd polisi. Er ei fod yn ymddangos i’r un graddau fel arfer da yn cefnogi’r broses gynllunio trwy ymgysylltiad democrataidd; gellid ymwreiddio’r ymgysylltiad gwleidyddol adeiladol hwn yn fwy effeithlon yn y camau cynnar.

Nodwyd angen i wleidyddion ddeall cymhlethdod y system a’r effaith y gallant ei chael ar amserlenni ar gyfer datblygiadau.

Roedd parch at swyddogion gan gynghorwyr yn fater arall a godwyd gan sawl ymatebwr. Nid yw hyn yn berthnasol i bob Awdurdod, ond cyfeiriodd rhai at “*driniaeth ofnadwy gan aelodau etholedig*” a “*gofynion afresymol ac afrealistig Cynghorwyr*” a “*Swyddogion yn cael eu gwthio i ddagrau yn rheolaidd*”. Cyfeiriodd rhai at golli staff “*yn bennaf ac i raddau helaeth oherwydd y driniaeth blwyfol ac ofnadwy o aelodau a llesgedd swyddogion monitro*”.

Byddai ystyriaeth o ffyrdd i wella’r berthynas waith rhwng aelodau a swyddogion o gymorth, ond mae adnoddau wedi’u hymestyn gymaint y gallai fod yn anodd ymwreiddio arferion da a’u rhoi ar waith. Cyflwynwyd ymgynghoriadau neu geisiadau Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) dadleuol fel enghraifft o le byddai hyn o fudd. Gofynnwyd a fyddai ymgynghoriadau a datblygiadau mwy dadleuol yn cael eu rheoli a’u cyfathrebu’n well i’r cyhoedd gyda mwy o staff a / neu gyda pherthynas waith well gydag Aelodau.

Nododd yr adroddiad i Gyngor Wrecsam[7] bod ymddygiadau yn y Pwyllgor Cynllunio “yn briodol ar y cyfan ond derbynnir yn gyffredinol bod y berthynas rhwng rhai Cynghorwyr a swyddogion wedi gwaethygu.”

#### 5.3.4 Disgwyliad y cyhoedd

Mae llawer o ymatebwyr (ymatebwyr o ACLlau yn bennaf) o’r farn bod disgwyliad y cyhoedd o gynllunwyr a’r system wedi codi a bod agweddau tuag at gynllunwyr wedi newid. Y disgwyliad gan y cyhoedd yw y dylai / bod yn rhaid i gynllunwyr ymateb ar unwaith.

> **“Y brif agwedd negyddol yw’r cwynion a’r feirniadaeth ddi-baid gan y cyhoedd - sy’n aml yn hallt ac yn bersonol. Mae 'diolch' gan uwch reolwyr a Chynghorwyr yn helpu, ond yn y pen draw mae’r sefyllfa bresennol gyda’r cyhoedd yn ei gwneud yn dasg ddiddiolch a braidd yn dorcalonnus.”**

> **“Mae disgwyliadau pobl i ymateb ar unwaith i negeseuon e-bost a nifer y negeseuon e-bost yn anghynaliadwy ac yn fy atal rhag gwneud unrhyw waith.”**

#### 5.3.5 Datblygwyr a Gweithwyr Amgylchedd Adeiledig Proffesiynol Eraill

Roedd neges eglur o angen i broffesiynau eraill weld y darlun ehangach i gyflawni gwell canlyniadau i drefnau cydsynio sy’n cystadlu. Mae cynllunio yn aml, ac nid bob amser yn deg, yn cael y bau am oedi prosiectau neu am fod yn fiwrocrataidd.

Mae disgwyliadau datblygwyr o bryd y dylid gwneud penderfyniadau ar geisiadau yn ffynhonnell reolaidd o bwysau. Mae angen rheoli disgwyliadau ond nid yw’n anghyffredin i ddatblygwyr gysylltu â rheolwyr llinell / uwch swyddogion / gwleidyddion i ddylanwadu ar yr amserlenni.

Nododd rhai bod angen i gleientiaid gael eu hysbysu nad yw eu disgwyliadau a’u hamserlenni bob amser yn rhesymol, ac nad nhw yw’r unig gleient, ac mae’n bwysig darparu’r holl wybodaeth sydd ei hangen cyn gynted â phosibl yn y broses.

## 5.4 Darparu Gwasanaethau Cynllunio

Ni fwriedir i’r Sgwrs Fawr fod yn adolygiad o’r system gynllunio na pholisi, ond ei diben yw dod o hyd i gyfleoedd i leddfu pwysau a galluogi’r system i weithio’n fwy effeithlon ac effeithiol i gyflawni canlyniadau a chynorthwyo’r rhai sy’n darparu’r system.

> **“Rydym o’r farn bod polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn llawer gwell na’r un yn Lloegr, ond mae angen i bolisi newid gêr yn gyflym o ran ymateb i’r argyfwng hinsawdd a biolegol.”**

Mae sylwadau ar adnoddau wedi’u cysylltu’n agos â materion gweithredu, fel ffyrdd o weithio a swyddogaethau. Mae llawer o’r materion gweithredu yn rhyng-gysylltiedig, gan effeithio ar ei gilydd ac ar feysydd eraill. At ddibenion hyn, mae ‘materion gweithredu’ yn cynnwys gweinyddu gwaith cynllunio, cyfathrebu, ffyrdd o weithio, cynllunio digidol a TG h.y. y materion sy’n effeithio ar redeg y gwasanaeth neu’r busnes o ddydd i ddydd.

Ystyrir bod y broses o ddrafftio, mabwysiadu a gwneud penderfyniadau CDLl mewn ACLlau yn araf, ond nododd un ymatebwr:

---

[7] https://moderngov.wrexham.gov.uk/documents/s24598/Item%2011.pdf?LLL=0

**“Nid yw sgôr cymeradwyaeth uchel ac ennill apêl o reidrwydd yn dystiolaeth o ymrwymiad i wella’r amgylchedd i bawb”.**

Nodwyd nad gorddibyniaeth ar ymgynghorwyr allanol i wneud gwaith rheoleiddio yw dull mwyaf cost-effeithiol bob amser a gellid buddsoddi’r arian yn well ar ddatblygu adnoddau staff.

Cyfeiriodd rhai at ormod o ddibyniaeth ar unigolion penodol yn y tîm i gynllunio, rheoli a darparu, a all fod y tu hwnt i’w cyfrifoldebau “*Mae hyn yn achosi gorbryder a drwgdeimlad*.”

Mae’r amser sydd ar gael yn bwynt pwysig i’w ystyried. Atseiniwyd *“amser i feddwl am waith achos, i negodi gwell canlyniadau a chydweithio i sicrhau arferion gorau”* gan nifer o ymatebwyr*.*

**“…i staff, mae’n golygu cael trafodaethau am lwythi achosion, deall blaenoriaethau a bod â thargedau rhesymol i gyflawni yn hytrach na staff yn teimlo wedi’u llethu ac yn cadw hynny i’w hunain. Gall ffyrdd o weithio, cynyddu nifer y staff, technoleg ac ati helpu, ond mae bod ag amser annigonol yn ymwneud â rheoli amser a gwaith.”**

### 5.4.1 Rheoli Datblygiad

Roedd nifer fach yn teimlo bod ychydig neu ddim problemau / bylchau o ran CDLl neu bolisi cynllunio Cenedlaethol yn effeithio ar y broses rheoli datblygiad.

**“Ceir rhai bylchau, ond mae’n iawn yn gyffredinol. Byddai’n well gen i pe bau adnoddau yn cael eu neilltuo i redeg y system o ddydd i ddydd yn hytrach na thincro ymhellach.”**

Roedd meysydd o angen a nodwyd yn ymwneud mwy â deall a gweithredu polisi.

Pan godwyd problemau neu fylchau, roedd thema amgylcheddol yn ymddangos dro ar ôl tro. Er bod y meysydd pwnc yn amgylcheddol i raddau helaeth, roedd y rhain yn eang ac amrywiol ynddynt eu hunain, yn amrywio o ffosffadau i arfarnu cynaliadwyedd. Nodwyd bod y materion arbenigol hyn yn anodd i gyrff sector cyhoeddus, gan gynnwys ACLlau, fynd i’r afael â nhw, ac felly hefyd y sector preifat.

Yn yr un modd, codwyd hyfywedd drwy gydol yr ymatebion.

**“Mae asesiadau hyfywedd drwy’r Prisiwr Dosbarth yn oedi ceisiadau am fisoedd … Mae angen adolygiad sylfaenol arnom ni.”**

**“Mae gan ddatblygwyr safbwynt byrdymor o hyfywedd yn unig ac nid oes ganddynt werthfawrogiad llawn o gostio oes gyfan. Mae dyluniadau yn aml yn gwyro tuag at gostau adeiladu isaf felly, sy’n aml yn golygu costau oes gyfan llawer uwch. Mae hyn yn arwain at wrthdaro uniongyrchol wrth fesur penderfyniadau CDLl yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.”**

**“Gwell pwerau i fodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae rhanddeiliaid yn cynnig blychau ystlumod yn rhan o unrhyw ddatblygiad newydd dim ond fel ffordd o ‘wella’ bioamrywiaeth y datblygiad; tra bod angen cyflwyno mwy o bwerau ar blannu coed a chynefinoedd a chysylltedd er mwyn gwella’r safleoedd yn naturiol trwy weithrediad cynefin gwirioneddol a / neu atgyfnerthu / cysylltu pethau presennol, yn hytrach nag yn ‘annaturiol' (blwch ystlumod artiffisial a all fod yn ddim ond ‘ticio blwch’ pan nad oes unrhyw gynefin i’r ystlumod ei ddefnyddio).”**

Nodwyd nad yw'r ddyletswydd Adran 6 i wella bioamrywiaeth yn cael ei chefnogi gan gynllunwyr. Er bod hyn hefyd yn gysylltiedig â'r diffyg mewnbwn ecoleg arbenigol sydd ar gael. Yn nodweddiadol, bydd costau gweithredu yn cael eu dadlau o ran hyfywedd.

Ceir "*diffyg arbenigedd ecolegol cyffredinol a dealltwriaeth o'r Nod Cymru Gydnerth yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nid yw mesurau lliniaru datblygiad yn cael eu monitro ac yn gyffredinol nid yw'n digwydd arwain at golled net o fioamrywiaeth. Nid oes unrhyw integreiddio nac ystyriaeth o atebion sy'n seiliedig ar natur. Hyd yn oed pan fydd SDCau yn cael eu gweithredu, prin yw gwerth ecolegol y plannu gan nad oes gan ymgynghorwyr y sgiliau / parodrwydd i addasu trefnau plannu. Collir llawer o gyfleoedd i ymgorffori bioamrywiaeth trwy ddylunio gan nad yw'r rhai yn y trydydd sector a all gynghori ac yn cael eu hymgynghori*."

Codwyd materion llifogydd, draenio a ffosffadau dro ar ôl tro gan y sectorau cyhoedd a phreifat hefyd a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar fwrw ymlaen â dyluniadau datblygiadau, ceisiadau a chasglu tystiolaeth.

> **"Mae arfarnu cynaliadwyedd yn eitem nodweddiadol a chyson nad yw'n cael digon o sylw o ran hyfforddiant / canlyniadau a sgiliau. Mae'r dull hwn yn allweddol i ddarpariaeth yn erbyn nodau llesiant ac yn aml yn cael ei roi ar gontract allanol / ddim yn cael ei integreiddio i gynllun ac mae tystiolaeth fel perygl llifogydd a'r newid yn yr hinsawdd yn dylanwadu ar ddatblygiad cynllun."**

Ategwyd hyn gan:

> **"Cynaliadwyedd – mae wedi dod mor gymhleth ac nid yw'r dulliau ar gael i wneud asesiadau."**

Mae rhai asiantau yn teimlo na allant ymateb i geisiadau am wybodaeth, a'r amser dan sylw, gan swyddogion ACLl, i gyfiawnhau eitemau ar gyfer amwynder cymdogion.

I grynhoi, y pynciau a godwyd **fwyaf** fel rhai sy'n cael effaith ar adnoddau yw:

| **Pynciau seiliedig ar ddŵr** | **Pynciau Amgylchedd Naturiol** |
| --- | --- |
| • Cyrff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy ac SDCau, a materion proses Cyrff Cymeradwyo Systemau Draenio yn benodol. Cyfeiriodd rhai at "arteithiol o anodd i fwrw ymlaen â nhw yn unol ag amserlenni cynllunio."<br>• Ffosffadau a niwtraledd maethynnau;<br>• Ansicrwydd ynghylch TAN15 a chreu lleoedd;<br>• Seilwaith gwyrdd | • Ecoleg - Mae'n ymddangos bod problemau capasiti o ran ecoleg. *"Nid ydym wedi llwyddo i gyflogi Swyddog Ecoleg ers misoedd."*<br>• Coed – plannu, ôl-ofal a chynnal a chadw parhaus;<br>• Arbenigwyr tirwedd, effaith weledol, a threftadaeth ddiwylliannol, colli tir gorau a mwyaf amlbwrpas |
| **Pynciau ehangach** | |
| • Hyfywedd<br>• Asesiad effaith (cydraddoldeb, Asesiadau'r Gymraeg);<br>• Mwynau;<br>• Ansawdd sgiliau dylunio – *"cyffredinol wael mewn ceisiadau"*<br>• Ynni adnewyddadwy; | • Sero net;<br>• Trafnidiaeth a phriffyrdd – yn dal i ganolbwyntio'n fawr ar atebion sy'n seiliedig ar geir;<br>• Treftadaeth gadwraeth;<br>• Datblygiad un blaned;<br>• Deall seilwaith a chapasiti gwasanaethau. |

Roedd gwahaniaeth barn rhwng rhai sectorau, a ddangosir gan y dyfyniadau hyn:

> **"Sicrhau ansawdd uchel o ddylunia mewn tirwedd warchodedig - mae asiantau'n cyflwyno'r math rhataf o ddyluniad posibl, sy'n niweidiol i ansawdd y dirwedd. Mae sicrhau ail-ddylunio i wella ansawdd y cynllun yn cymryd llawer iawn o amser. Nid yw fy swydd yn rhoi'r amser hwn i mi" yn erbyn "cynghorau beichus sy'n llusgo'u traed".**

Nododd ymatebwr:

> **"Anaml y mae datblygwyr yn gwbl agored a gall hyn arwain at waith caled difrifol ar gyfer ceisiadau mawr (a cheisiadau llai yn ein hachos ni), gan ei fod yn aml yn ganolog i ystyriaeth briodol i effeithiau datblygiad a mesurau lliniaru."**

Codwyd ansawdd ceisiadau a gyflwynir nifer o weithiau,

> **"Un ateb amlwg yw cynyddu staff / adnoddau llywodraeth leol, ond hefyd mae safon ceisiadau cynllunio yn isel yn gyffredinol – sy'n gwneud ein gwaith ni yn fwy anodd."**

Roedd un ymatebwr yn teimlo ei fod yn fater o fwy o hyfforddiant,

> **"gellid gwella llawer o geisiadau o safbwynt dylunio ond mae Rheolwyr Datblygiad ar y droed ôl ar ôl i gais gael ei gofrestru ac yn teimlo na allant ddychwelyd i wella safonau dylunio."**

Codwyd ansawdd a safonau fel ffactor o ran cynyddu llwythi gwaith. Mae ansawdd is cynlluniau sy'n cael eu cyflwyno gan gynnwys lluniadau, dyluniad, ac asiantau ddim yn blaenlwytho ceisiadau yn arwain at lawer o wallau a negodi ar y dyluniad yn y broses ymgeisio.

Awgrymwyd gwell dealltwriaeth o broses ACLlau a'r hyn sy'n ofynnol ar bob cam ac i brosesu ceisiadau. Nodwyd bod "*y sector preifat yn brysur, ond mae ansawdd ceisiadau yn dioddef oherwydd hyn*"; neges sy'n atseinio â sylwadau eraill drwy gydol yr arolwg.

> **"Y broblem yw mwy bod CDLlau yn llawer rhy fanwl i'r graddau bod rheoli datblygiadau yn troi'n ymarfer ticio blwch. Mae Swyddogion (ac Arolygwyr) yn colli'r sgiliau / nid yw'r hyder ganddynt i fabwysiadu dull mwy cytbwys o wneud penderfyniadau."**

## Gweinyddu

Trafodwyd gweithio gweithredol a mwy clyfar drwy'r ymatebion i'r arolwg, gan gynnwys swyddogaeth gweinyddwyr a thechnegwyr cynllunio.

Un thema gyffredin oedd faint o waith gweinyddol sy'n cael ei wneud gan gynllunwyr cymwysedig. Codwyd hyn gan y sectorau cyhoeddus a phreifat. Gall staff gweinyddol fod yn ffordd fwy effeithlon o gyflawni'r archwiliadau cefndir, rheoli ceisiadau drwy'r system ac anfon gohebiaeth allan ac ati. Mae'n bwysig cydnabod bod timau cynllunio wedi'u trefnu'n wahanol ledled Cymru, rhai â thimau gweinyddol mawr, eraill â thimau gweinyddol bach neu ddim o gwbl.

Nododd yr arolwg bod dileu swyddi gweinyddol wedi rhoi mwy o bwysau ar swyddogion a staff technegol a gallai hyn fod yn rhan o achos y cynnydd i lwyth gwaith swyddogion cynllunio. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod hwn wedi cynyddu'n sylweddol.

## Arbenigeddau Mwynau a Gwastraff

Mae'n bwysig hefyd cydnabod y materion sy'n effeithio ar gynllunwyr mwynau a gwastraff, a dywedodd un ymatebwr,

> **"Bu cynnydd i nifer y Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a'r Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol / prosiectau Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yr ydym yn ymdrin yn gynyddol â nhw …. Hefyd, mae'r galw am fwynau agregau wedi cynyddu ac mae nifer o safleoedd angen estyniadau mawr sy'n arwain at ofynion ychwanegol ar y gwasanaeth bach."**

## Amserlenni

Roedd mwy o gysondeb a phrydlondeb yn fater a godwyd gan ymatebwyr sector preifat fel ffordd o'u cynorthwyo'n well. *"Nid yw adrannau cynllunio yn gweithio yn unol ag amserlenni cynllunio,"* tra bod ymgymerwyr statudol a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cynllunio trwy wahanol brosesau a gwahanol amserlenni, er enghraifft mae cwmnïau dŵr yn gweithio ar sail pum mlynedd.

Nodwyd bod prosiectau cyfalaf blynyddol Llywodraeth Cymru yn dylanwadu ar lwythi gwaith. Yn aml, nid yw'r amserlen ar gyfer gweithredu rhaglennu cyfalaf a dyfarniadau grant yn cymryd yr amserlenni dylunio a chynllunio i ystyriaeth ac yn aml mae prosesau cynllunio yn cael eu rhoi o dan bwysau i fodloni amserlenni tynn ac yn cael eu beio os nad ydynt yn cael eu bodloni.

### 5.4.2 Polisi

Ceir tueddiad cyffredin ym mhob sector bod mwyafrif o ymatebwyr yn credu bod angen gwneud newidiadau i'r broses CDLl i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Yn benodol, mae'n ymddangos bod diffyg mynediad digonol at gymorth arbenigol allanol.

O ran y broses CDLl, dywedodd un ymatebwr sector preifat,

> **"Fel cynllunwyr preifat, gofynnir i ni'n aml i gyfrannu [at y broses CDLl], ac rydym ni'n gwneud hynny. Mae'r CDLl yn ddogfen fwy sy'n cymryd misoedd / blynyddoedd i'w pharatoi ac yna gofynnir i'r cyhoedd / ymgynghorwyr / grwpiau wneud sylwadau. Mae'n cymryd amser hir i'w darllen, i ymgyfarwyddo â hi / ei chymryd i mewn / i feddwl amdani ac i wneud sylwadau arni. A fyddai modd efallai gwahanu polisïau cyffredinol oddi wrth fapiau i rannu'r broses ymgynghori a datblygu polisïau a mapiau ar y cyd? Mae gan y cyhoedd ddiddordeb yn yr hyn sydd yn yr arfaeth yn eu hardal yn gyffredinol h.y. y mapiau. Sylwer bod yr holl gyfraniad hwn gan gynllunwyr preifat ar ein traul ni!"**

Safbwynt arall a roddwyd oedd:

> **"Cafwyd heriau mawr yn symud adolygiad CDLl ymlaen yn fy awdurdod i. Achoswyd oediadau gan bandemig Covid (roedd yn rhaid i ni adolygu sail dystiolaeth gyfan y cynllun a gwneud newidiadau i rannau ohoni, yn ogystal â pharatoi asesiad effaith Covid), canllawiau ffosffadau Cyfoeth Naturiol Cymru (mater anodd iawn i fynd i'r afael ag ef, un yr ydym yn dal i weithio arno ac a fydd yn cymryd amser maith i'w ddatrys), y diwygiad i TAN 15 (eto, yn gofyn am lawer mwy o waith, er y deallir y rhesymau am y diwygiad), yr angen i weithio hefyd gydag awdurdodau eraill ar sail ranbarthol ar Gynlluniau Datblygu Strategol, yn gysylltiedig â sefydliad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae gennym ni'r posibilrwydd hefyd o fwy o ganllawiau ar ffosffadau / nitradau / maethynnau yn gyffredinol ar y gorwel i elfennau morol ACAau."**

Ystyrir bod casglu tystiolaeth yn cymryd amser a gofynnwyd a ellid ei gynorthwyo'n well gyda chynllunio digidol a mwy o staff ymchwil cynorthwyol o bosibl, neu well rhannu data gyda gwasanaethau eraill. Esboniodd un ymatebwr bod cymunedau yn aml eisiau rhagor o wybodaeth ar y camau cynnar ac nad oes gwybodaeth o reidrwydd ar gael; mae'n cymryd amser i ymgysylltu ac esbonio hyn.

### 5.4.3 Cynllunio Rhanbarthol

> **"[Mae angen] lle i fwrw ymlaen â'r Cynllun Datblygu Strategol - allwch chi ddim gorfodi cydweithrediad. Roeddem ni'n gwneud cynnydd ardderchog tan i Lywodraeth Cymru wneud popeth yn orfodol a gwneud Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ofynnol (ond heb feddwl am y trefniadau treth a chyllid a llywodraethu - mwy o ganlyniadau anfwriadol). Nawr rydym ni wedi arafu a stopio."**

## Gweithio ar y cyd

Awgrymwyd bod angen cynyddu gweithio mewn partneriaeth ag adrannau awdurdod lleol eraill, yn enwedig o ran cyngor arbenigol yn ymwneud â phriffyrdd / ecoleg / cadwraeth.

> **"Mae rhannu gwybodaeth / profiadau yn dda ac fe'i gwneir yn y fforymau yr ydym ni wedi eu sefydlu."**

Eglurodd un ymatebwr,

> **"Nid yw'n ymwneud cymaint â'r diffyg arbenigedd sy'n amlwg ond mynediad at yr arbenigedd hwnnw yn brydlon i gynorthwyo'r sector datblygu" "Mae staff wedi'u hymestyn yn rhy denau sy'n ei gwneud yn ofynnol dod ag arbenigedd i mewn ar gyfer datblygu polisi."**

Cyflwynir meysydd polisi arbenigol eraill a restrwyd mewn ymatebion isod:

| | |
|---|---|
| • Angen tai – rhagolygon mwy cyson ac eglur<br>• Rhagolygon a dadansoddiadau poblogaeth<br>• Y Gymraeg a diwylliant Cymru<br>• "*Mae adnoddau mewn Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol wedi lleihau'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ar ôl cael gwared ar gyllid neilltuedig*"<br>• Creu lleoedd<br>• Asesiadau strategol a hyfywedd safle. Ystyriwyd bod hyfywedd a chadw hyn yn gyfredol drwy'r broses CDLl yn her<br>• Sipsiwn a Theithwyr<br>• Ffosffadau, gan gynnwys yr angen am setiau data sylfaenol, nad ydynt ar gael | • Hyfywedd mwynau<br>• Treftadaeth a chadwraeth<br>• Coed, gan gynnwys coedyddiaeth a choedwigaeth drefol<br>• SDCau<br>• Polisi ynni<br>• Swyddogaeth amaethyddiaeth graddfa lai i leihau allyriadau carbon<br>• Capasiti Dŵr/Trydan<br>• Y Gymraeg<br>• Newid yn yr hinsawdd a sero net<br>• Allyriadau carbon ac effeithlonrwydd<br>• Effaith iechyd<br>• Trafnidiaeth |

> **"Mae blaenlwytho'r broses polisi yn wych mewn theori ond yn amhosibl ei gyflawni heb adnoddau sylweddol ymlaen llaw. Mae'r amser a gymerir i symud ymlaen yn golygu bod angen diweddaru astudiaethau drwy'r amser sy'n achosi rhwystredigaeth enfawr ac yn ychwanegu at gyfanswm y gost. Nid yw timau polisi wedi'u trefnu ar gyfer y math hwn o weithio yn gyffredinol. Byddai'n well cael adnoddau hyblyg i gael tîm mawr ar gael ar gyfer y cam casglu tystiolaeth cychwynnol ac yna lleihau i dîm craidd ar gyfer gweddill y broses. Rydym hefyd wedi cael problemau sylweddol gyda chynigwyr safleoedd yn amharod i fuddsoddi mewn asesiadau hyfywedd, arolygon ac uwchgynlluniau cyn unrhyw fath o sicrwydd fel y darparwyd yn flaenorol gan y Cynllun Adneuo."**

Roedd rhwystredigaeth yn y sector preifat ynghylch materion CDLl cyffredinol, gan awgrymu bod *“hyder mewn CDLlau ar ei isaf erioed.”  “Mae CDLlau yn aml wedi’u drafftio’n wael â defnydd anghyson o brofion polisi gwneud penderfyniadau allweddol. Mae angen i Lywodraeth Cymru a Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru arwain y gwaith o sicrhau cysondeb.”*

#### 5.4.4 Materion cynllunio gwledig

Ceir teimlad cyffredinol bod llawer o bolisi diweddar wedi’i gynllunio ar gyfer lleoliadau trefol, ond mae’r cyd-destun mewn ardaloedd gwledig yn wahanol lle mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig, mae hyfywedd yn is, ac mae cwmnïau adeiladu yn llai. Mae’r gallu i gyflawni uchelgeisiau Cymru’r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn fwy heriol mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft safleoedd tai o lai na deg cartref (sy’n cael eu hystyried yn fawr yn ôl safonau lleol).

Mae timau cynllunio gwledig hefyd yn cael trafferth gyda mwy o ofynion i ddarparu cynllun cadarn, fel Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd, Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol, Asesiadau o’r Dirwedd, capasiti Morwedd, Asesiadau Seilwaith Gwyrdd ac ati. Ystyriwyd bod:

> **“mae llawer o’r dogfennau hyn yn ormodol ar gyfer y math o aneddiadau yr ydym ni’n ceisio cefnogi a darparu tai ar eu cyfer, sy’n dangos diffyg pendant o brawfesur gwledig ac yn creu mwy o waith i ymgynghorwyr gan na all tîm bach o lai na llond llaw o gynllunwyr gyflawni’r gwaith hwn ac nid yw’r arbenigeddau ganddynt i wneud hynny – hyd yn oed pe bai gennym ni gyllideb ni allwn recriwtio”.**

Gan gyfeirio’n benodol at afonydd, nodwyd

> **“mae chwiliad am atebion ar lefel dalgylch, ond nid oes cysondeb o reidrwydd ynghylch atebion a dulliau trawsffiniol. Byddai dull cenedl gyfan yn dod …â’r sector defnydd tir gwledig i mewn yn eithriadol o gynorthwyol.”**

## 5.5 Swyddogaeth a Diben Cynllunio

Nododd ymatebwyr nid yn unig cynnydd i ddisgwyliad y cyhoedd, ond hefyd uchelgais Llywodraeth / gwleidyddol a meysydd ychwanegol o waith y mae’n rhaid i faes cynllunio a chynllunwyr ymgymryd â nhw. Ystyriwyd y rhain gan rai fel rhywbeth ‘ychwanegol’, yn mynd y tu hwnt i gynllunio, yn hytrach na rhan o system gynllunio flaengar a rhagweithiol. Fframiwyd hyn yn y mater ehangach o adnoddau a chapasiti sy’n lleihau:

> **“Bu angen i gynllunwyr polisi gymryd rhan mewn llawer o feysydd gwaith eraill - datgarboneiddio, addasu i’r newid yn yr hinsawdd, cynllunio ynni, ac ati. Mae’n wych bod yn rhan o hyn, ond mae’n dod â phwysau llwyth gwaith aruthrol.”**
>
> **“Y broblem yw bod y CDLl / polisi cenedlaethol yn cwmpasu gormod o faterion, y gellid dadlau bod rhai ohonynt y tu allan i gwmpas cynllunio. Mae’n ymddangos bod cynllunio wedi troi’n faes dal popeth i fynd i’r afael â holl ddiffygion cymdeithas, gan ychwanegu mwy a mwy o ystyriaethau at y broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae’r ‘ehangu cenhadaeth’ hwn yn gwanhau gwerth cynllunio fel disgyblaeth ac yn rhoi baich pellach ar swyddogion sy’n ymdrin â cheisiadau.”**

Rhestrwyd sawl maes pwnc fel rhai sy’n atodol i gynllunio, neu’n bwnc a oedd yn cynyddu llwyth gwaith cynllunwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Newid yn yr hinsawdd (cydnabod yr argyfwng hinsawdd a natur)
- Bioamrywiaeth
- Cynaliadwyedd
- Llesiant
- Teithio llesol
- Nifer gynyddol o asesiadau
- Ffosffadau
- Llifogydd
- Ffermio a mentrau bwyd
- Covid-19 (effaith ar y pryd a phroblemau parhaus)

  **“Mae angen i ni ystyried pa mor gymhleth ac aml-ffased y mae’r system gynllunio wedi dod. Mae agweddau unigol ar y broses gynllunio i gyd ac ynddynt eu hunain yn bwysig ond yn gyfunol wedi ein symud ni ymhell iawn o’r syniad craidd o ‘reoli defnydd tir'.”**

Codwyd angen i gryfhau’r dull a arweinir gan gynllun ymhellach:

> **“Cryfach o ran gweithredu’r dull a arweinir gan gynllun … Mae tai mewn lleoliadau anghynaliadwy a manwerthu y tu allan i’r dref yn ddwy enghraifft gyffredin a fydd yn cael eu caniatáu bob wythnos ledled y wlad.”**

## 5.6 Gweithio Digidol

Amlygodd ymatebion ddiffyg sylweddol yn y cymorth digidol ar gyfer hwyluso cynllunio mewn ACLlau. Cyfeiriodd llawer o sylwadau at drefn wedi’i “*chawlio*” neu “*ddim yn addas i’r diben*”. *“Mae systemau TG yn araf, yn or-gymhleth ac ni ellir cyflawni rhai swyddogaethau sylfaenol yn hawdd.”* Treulir amser sylweddol yn ymyrryd â llaw ar systemau TG[8].

Adroddodd yr adroddiad[9] ar wasanaeth Wrecsam:

> **“Mae’r feddalwedd swyddfa gefn bresennol yn hen ac nid yw’n gweithredu cystal â system fodern, ac mae hyn yn arwain at aneffeithlonrwydd sylweddol yn y broses ac yn gwneud rheoli llif gwaith yn anodd.”**

[8] Roedd y gwasanaethau mwyaf cyffredin y cyfeiriwyd atynt yn yr ymatebion yn cynnwys:

- Idox – meddalwedd a ysgogir gan broses sy’n sail i’r gwaith o reoli cynllunio a rheolaeth adeiladu, iechyd yr amgylchedd a gweithdrefnau trwyddedu.
- Uniform – platfform ag amrywiaeth o fodiwlau craidd a chymwysiadau cysylltiedig sy’n darparu meddalwedd rheoli achosion.
- Web APAS – peiriant chwilio ar gyfer cwynion cynllunio, ceisiadau ymlaen llaw a cheisiadau ac ati.
- Acolaid - cyfres integredig o atebion tir ac eiddo wedi’u galluogi’n ofodol i awdurdodau lleol ac a ddefnyddir gan dros 70 o awdurdodau yn y DU.
- Lle – yn gweithredu fel canolfan ar gyfer data a gwybodaeth yn cwmpasu sbectrwm eang o bynciau, ond yn ymwneud â’r amgylchedd yn bennaf.

[9] https://moderngov.wrexham.gov.uk/documents/s24598/Item%2011.pdf?LLL=0

Adroddwyd problemau ynghylch maint ffeiliau y gellir eu cadw ar blatfformau TG fel problem gyffredin.

Nodwyd diffyg o ran gwefannau ACLlau a Llywodraeth Cymru hefyd. Mae hyn yn cysylltu â'r angen a nodwyd am well wybodaeth i'r cyhoedd a'r rhai nad ydynt yn gynllunwyr i gael mynediad gwell a haws at wybodaeth i ddeall polisi a phrosesau cynllunio.

Amlygwyd y ddarpariaeth o ddata a rennir ar-lein fel gwendid.

> **"Nid yw mapio sydd ar gael i ACLlau fel mapio ecolegol / llecynnau cyfoethog ar gael i'r cyhoedd. Gall hyn oedi'r broses o nodi problemau. Gallai gwell mynediad wneud y broses yn fwy didrafferth / arbed adnoddau i bawb. Canfod llwybr eglur i'r wybodaeth hefyd. Gellid ei wneud yn hawdd trwy wefan sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd."**

Awgrymwyd y canlynol fel enghraifft o adnodd da: Manylion SoDdGA (naturalengland.org.uk) https://designatedsites.naturalengland.org.uk/SiteDetail.aspx?SiteCode=UK11081

Adroddwyd bod platfformau e.e. MS Teams wedi dod â manteision ac wedi gwella cyfathrebu. Er bod rhai manteision i rith-bwyllgorau cynllunio, dywedodd rhai ei bod yn straen fawr eu cynnal hefyd.

Fframiodd un ymatebwr yr angen am well cynllunio digidol yn ddefnyddiol yn rhan o ddarlun ehangach o gadw i fyny â newid:

> **"Byddwn yn dweud sefydlogrwydd digidol, gan fod ceisio cadw'n gyfredol â systemau sy'n newid yn barhaus yn her fawr. Mae newid cyson hefyd yn nodwedd o'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi yng Nghymru – mae llawer yn digwydd ac mae weithiau'n anodd cadw i fyny â'r cwbl."**

## 5.7 Gweithio hybrid / o bell

Mae cyfuniad o ffactorau gan gynnwys datblygiadau technolegol a dymuniad i leihau cymudo, wedi'i gyflymu gan y pandemig, wedi arwain at symudiad i weithio gartref. Mae Llywodraeth Cymru yn annog polisi o weithio o bell lle gall gweithwyr ddewis eu gweithle – eu gweithle canolog, eu cartref, neu fan gweithio yn agos at eu cartref: "*Rydym bellach yn awyddus i gydweithio â sefydliadau er mwyn cefnogi newid hirdymor a fydd yn annog rhagor o bobl i weithio o bell*."[10] Mae'r newid hwn i ddull hybrid yn cael ei archwilio'n fyd-eang a bydd yn cymryd amser o ganfod y cydbwysedd newydd.

Mae'n eglur o'r ymateb i'r Sgwrs Fawr bod ysbryd yn cael ei effeithio'r ddwy ffordd, mae'r cwbl yn dibynnu ar yr unigolyn. Roedd yr ymatebion yn eglur bod y ffafriaeth at weithio yn y swyddfa neu gartref yn bersonol iawn, ac mae hyn hefyd yn wir am reolwyr sy'n dylanwadu ar brofiad timau.

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn gweithio gartref yn achlysurol o leiaf, hyd at weithio gartref yn bennaf. Roedd y rhesymau am hyn yn bennaf seiliedig ar ddewis personol i fodloni eu dymuniadau a diwallu eu hanghenion eu hunain, fel cyfrifoldebau gofalu neu i gael gwared ar deithiau cymudo hir.

[10] www.llyw.cymru/polisi-gweithio-o-bell

Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch cynhyrchiant a manteision gwaith gweithio gartref / gweithio yn y swyddfa. Fodd bynnag, roedd safbwynt eang nad oedd cael timau yn y swyddfa'n rheolaidd yn niweidiol i gydweithwyr newydd, yn enwedig y rhai sy'n cychwyn eu gyrfaoedd. "*Anfantais fwyaf gweithio gartref yw'r golled wirioneddol o gyfle i staff llai profiadol elwa o drosglwyddiad gwybodaeth gan gydweithwyr mwy profiadol.*"

> **"Rwy'n poeni na fydd y genhedlaeth o gynllunwyr yn y dyfodol yn gallu datblygu'r un wybodaeth a sgiliau â'u rhagflaenwyr a ddysgodd trwy osmosis mewn amgylchedd swyddfa."**

Nododd un aelod o ymgynghoriaeth breifat anawsterau "*mentora rhywun yn iawn o bellter i'w helpu i ddysgu wrth weithio, yn enwedig pan ddaw i ymweliadau safle a chynlluniau mwy cymhleth*." Rhannodd un ymatebwr dan hyfforddiant ei 'ofn' o ymweliadau safle unigol mewn ardal wledig gan nad oedd digon o adnoddau staff i alluogi rhywun i fynd gydag ef.

Mae data'r arolwg yn awgrymu nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng gweithio gartref / hybrid â pha mor aml y mae pobl wedi'u gorymestyn. Ac nid yw'r data'n cefnogi'r dybiaeth chwaith y byddai gweithio gartref yn golygu bod llai o gymorth ar gael - a dweud y gwir, mae'n ymddangos bod gan ymatebwyr sy'n gweithio o'r swyddfa lai o'r cymorth iawn (25% o'r rhai sy'n gweithio o'r swyddfa), ac efallai fod hyn oherwydd arferion gweithio rheolwyr a chydweithwyr; fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei dderbyn.

Un mater a godwyd yn gysylltiedig â gweithio y tu allan i'r swyddfa yw'r swyddogion (mewnol ac allanol) sydd ar gael a sgil-effaith ar gyfathrebu. Adroddwyd hyn hefyd fel mantais o weithio y tu allan i'r swyddfa, gan roi'r cyfle i weithio gyda chyn lleied o bethau â phosibl i dynnu'r sylw. Hysbysodd rai am broblemau yn gysylltiedig â gallu cael ymatebion i gwestiynau cyflym neu rannu safbwynt pan fo pobl yn gweithio gartref, ac roedd yr hyn a allai fod wedi bod yn sgwrs anffurfiol bum munud o hyd yn hytrach yn arwain at fwy o draffig e-bost ac ymatebion yn cymryd llawer hwy ac yn cael eu ffurfioli.

Adroddwyd bod gweithio seilo yn fwy cyffredin nag erioed o'r blaen, hyd yn oed yn yr un timau.

> **"Os ydych chi ar eich pen eich hun gartref gall un cwestiwn rhwydd i gydweithwyr droi'n broblem fawr. Mae ymdrin â galwadau neu negeseuon e-bost annymunol hefyd yn fwy anodd gan eich bod ar eich pen eich hun pan rydych chi gartref. Mae arferion gorau yn cael eu mabwysiadu orau pan fyddwch chi'n clywed clebran cyffredinol, gall cwestiwn cyflym gymryd oriau/diwrnodau i'w ddatrys wrth i chi geisio sicrhau bod y person sy'n gallu helpu ar gael (roedd yn arfer bod yn fater o gerdded ar draws y swyddfa). Mae gweithio'n ddi-bapur yn iawn ond mae'n golygu oriau o syllu ar sgriniau yn hytrach na gallu adolygu copïau papur ac edrych ar gynlluniau'n iawn."**

> **"Mae gweithio gartref wedi niweidiol fy iechyd meddwl, wedi gwneud i mi deimlo wedi fy ngwahanu oddi wrth gydweithwyr ac wedi fy ngwahanu oddi wrth y gymuned yr ydym ni i fod i'w gwasanaethu. Mae gwaith yn llawer llai effeithlon, yn llai llesol, yn llai dynamig, yn llai o hwyl ac yn llai cytbwys nag o'r blaen. Mae 'cyfarfodydd' yn ddiflas, yn llai difyr ac mae llawer llai yn cael eu cymryd ohonynt. Mae rhai pobl yn cael eu gorweithio'n sylweddol a rhai pobl yn gwneud ychydig iawn. Mae'r agenda**

**gweithio gartref hefyd wedi gwaethygu anghydraddoldeb ac wedi atal yr agenda newid hinsawdd (effaith ar drafnidiaeth gyhoeddus a gwresogi / goleuo 50 o gartrefi unigol yn hytrach nag 1 ystafell fawr mewn swyddfa). Mae wedi gwneud i mi fynd o fwynhau fy swydd yn gyffredinol i'w goddef ar y gorau a'i chasáu ar y gwaethaf." Er roedd eraill yn teimlo eu bod wedi "lleihau [eu] hôl-troed carbon yn aruthrol."**

> **"Mae gwaith yn llawer mwy ynysig, yn enwedig i gynllunwyr ifanc heb fod â'r fantais o amgylchedd swyddfa."**

> **"Mae mwy o siawns o gael eich camddeall neu fethu gwybodaeth bwysig wrth weithio gartref."**

> **"Rwy'n chwilio am swydd newydd oherwydd o weithio gartref mae'r proffesiwn cynllunio'n teimlo wedi'i wahanu oddi wrth y cymunedau yr ydym ni'n eu gwasanaethu ac mae cynllunio sector cyhoeddus yn llawer llai dynamig a difyr bellach nag o'r blaen."**

Er bod eraill wedi gweld canlyniadau mwy cadarnhaol:

> **"Annog gweithio hybrid ymhellach - gwelwyd bod hyn yn gwella ysbryd staff, a chynhyrchiant ac wedi lleihau lefelau salwch."**

Mynegodd un ymatebwr ddymuniad i ddychwelyd i'r swyddfa, ond roedd hyn yn mynd i fod yn anodd gan yr ad-drefnwyd ystâd y cyflogwyr gan arwain at ostyngiad i nifer y desgiau sydd ar gael ar gyfer pawb.

Byddai angen dadansoddiad trylwyr pellach i ddod i gasgliadau dibynadwy ynghylch effaith ffyrdd o weithio ar ddarpariaeth a gallai fod yn gryn amser cyn y bydd patrymau gweithio ôl-bandemig yn setlo, er mwyn darparu gwerthusiad pendant. Fodd bynnag, mae angen eglur i gynorthwyo'r rhai sy'n newydd mewn swydd neu ar gamau cynnar eu gyrfa ac i roi cymorth tîm rheolaidd ar waith.

## 5.8 Ymgysylltu â'r Cyhoedd

> **"Mae cwsmeriaid yn llawer mwy annifyr, anfodlon ac ymosodol ers y pandemig."**

Cododd hyn nifer sylweddol o broblemau yn arwain at amser a dreulir yn ymdrin ag ymgysylltiad negyddol a gwastraffu adnoddau. Un ffactor allweddol sy'n sail i hyn yw diffyg dealltwriaeth y cyhoedd o gwmpas a swyddogaeth y system gynllunio ac mae'n gysylltiedig â disgwyliad y cyhoedd. Adroddwyd hyn fel problem gydag eraill sy'n gweithio yn yr amgylchedd adeiledig hefyd. Efallai fod gan grwpiau cymunedol ddiffyg capasiti i ymdrin â chymhlethdodau cynllunio. Mae angen eglur i fuddsoddi mewn gwella negeseuon a mynediad at wybodaeth eglur ac wedi'i theilwra.

> **"Mae adroddiadau swyddogion yn rhy hir a manwl oherwydd ofn o Adolygiad Barnwrol. Cymerir gormod o sylw i wrthwynebwyr ailadroddus, yn enwedig o ran materion nad ydynt yn berthnasol i gynllunio. Mae rhywfaint o ddeddfwriaeth e.e. y rheoliadau Hysbysebion, yn rhy gymhleth."**

Roedd tystiolaeth eglur bod ACLlau a chyrff llywodraethol yn dioddef sarhad neu ddigwyddiadau negyddol sylweddol: hysbysodd 48.8% am ddigwyddiadau achlysurol ac 16% rhai rheolaidd. Mae ymatebwyr Llywodraeth Cymru hefyd yn amlwg wedi dioddef sarhad a digwyddiadau o'r fath (30%).

Fel y disgwyliwyd, oherwydd eu swydd, y rhai ym maes gorfodi sy'n dioddef y sarhad mwyaf gyda 23.5% yn adrodd digwyddiadau rheolaidd, ac yna rheolwyr (yn adrodd 17% o ddigwyddiadau rheolaidd). Hefyd, mae 40% ar draws bob sector yn dioddef sarhad neu ddigwyddiadau negyddol yn achlysurol. Dim ond tua 10-15% o ymatebwyr sydd byth yn dioddef sarhad neu ddigwyddiadau negyddol.

Crynhowyd gan un ymatebwr yr hyn y mae llawer o gynllunwyr yn ei deimlo: "*Mae cynllunio bob amser yn denu beirniadaeth*", pa un a yw hynny am gymeradwyo neu beidio â chymeradwyo cynllun neu yn yr un modd am yr hyn sydd wedi'i gynnwys neu heb ei gynnwys mewn cynllun.

Mae 48% o'r holl ymatebwyr yn weld sarhad neu'n dioddef digwyddiadau negyddol yn achlysurol neu fwy. Dywedodd dynion a menywod eu bod yn dioddef yr un lefel o sarhad a digwyddiadau negyddol - o bosibl yn profi bod sarhad / digwyddiadau negyddol yn deillio o'r sector / swydd. Mae tua hanner pobl o bob oed yn dioddef sarhad yn achlysurol ond mae 19% o bobl 35-54 oed yn dioddef sarhad yn rheolaidd. Adroddwyd y sarhad mwyaf rheolaidd gan ymatebwyr Gogledd Cymru (21.4%) ac yna De-orllewin Cymru (13.3%).

Gwaethygwyd yr effaith negyddol hon gan weithio gartref, heb unrhyw gymorth uniongyrchol ar gael gan gydweithwyr i leddfu profiadau negyddol.

Codwyd pryder difrifol gan ddigwyddiadau lle mae swyddogaeth wedi'u bygwth yn gorfforol. Tynnwyd ein sylw at nifer o sefyllfaoedd lle mae swyddogion wedi'u dilyn a'u bygwth. Dywedodd un bod yr Heddlu wedi cysylltu ag ef hyd yn oed, gan argymell camerâu diogelwch a botymau panig.

Er y derbynnir y dylai ACLlau ddarparu gwasanaeth da, ceir diffyg adnoddau difrifol, sy'n arwain at wendidau o ran darpariaeth (yn amrywio ar draws ACLlau a rhwng gwasanaethau), ac mae hyn yn arwain at gwynion, sydd wedyn yn cymryd adnoddau ymhellach oddi wrth ddarpariaeth gan roi sefyllfa droellog ar waith. Dywedodd rhai swyddogion ACLl eu bod yn treulio 50% o'u hamser yn rheolaidd yn ymdrin â chwynion o wahanol fathau, yn eu tynnu oddi wrth ddarparu gwasanaethau. Teimlwyd bod "*diffyg dealltwriaeth gyffredinol o faint y prinder adnoddau mewn ACLlau*."

> **"Nid yw'n achos o beidio â gwneud yr achosion pan nad oes gennych chi ddigon o amser yn gorfforol yn yr wythnos i wneud y gwaith, mae'n fater o gael eich peledu gan alwadau ffôn a negeseuon e-bost anghyfeillgar ac ymosodol gan bobl yn y ciw - dydyn nhw ddim yn gwybod eu bod nhw yn y ciw, a dydyn nhw ddim yn deall bod gennych chi fel swyddog unigol lwythi gwaith 1.5 o bobl y disgwylir i chi ymdrin â nhw, ac mai nhw yw'r trydydd person sydd wedi ffonio i'ch beirniadu chi heddiw. Maen nhw'n disgwyl eich bod chi'n eistedd o gwmpas yn 'troi'ch bodiau' ddim yn prosesu eu cais gan eich bod chi'n weithiwr sector cyhoeddus diog."**

### 5.8.1 Ymgynghori â'r Gymuned Cyn Ymgeisio

Bwriadwyd i'r broses Ymgynghori â'r Gymuned Cyn Ymgeisio ddarparu proses i hyrwyddo arferion da ac i hwyluso'r broses gynllunio. Fodd bynnag, fe'i hamlygwyd gan ymatebion fel maes y dylid ei adolygu i ddarparu dull ymgysylltu mwy ystyrlon i gymunedau a allai arwain at well datblygiadau a chais mwy didrafferth a helpu i oresgyn difreiniad cymunedol.

Mae gan y broses

> **"fwriadau da ond prin yw ei gwerth yn ymarferol. Cynigir cyngor da yng Nghanllawiau Arferion Gorau 2017[11] ond yn ein profiad ni ychydig neu ddim mwy na'r safon ofynnol statudol sy'n cael ei bodloni gan ddatblygwyr."**

> **"Rydym ni wedi canfod bod Ymgynghoriadau â'r Gymuned Cyn Ymgeisio yn hwyr yn y broses wedi gwneud fawr ddim mwy na'n rhybuddio ymlaen llaw o gais sydd ar ei ffordd yr ydym yn debygol o wneud sylwadau tebyg yn ei gylch. Rydym yn amau a oes unrhyw randdeiliad yn y broses yn gweld gwerth sylweddol yn y safon ofynnol statudol."**

#### 5.8.2 Cyfryngau Cymdeithasol

Amlygwyd cyfryngau cymdeithasol fel dull rhagorol i godi ymwybyddiaeth, ond roeddent yn ychwanegu cymhlethdod pellach i gynllunwyr. Awgrymwyd mai cyfryngau cymdeithasol yw'r unig ffordd o ymgysylltu â'r cyhoedd bellach. Ceir arferion da o ran defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'r cyhoedd ar gynlluniau a chynlluniau unigol a dylid rhannu mwy o ymwybyddiaeth a dysgu o'r arferion hyn.

Adroddodd yr arolwg effaith negyddol cyfryngau cymdeithasol, wrth i 58% o ymatebwyr ddweud bod cyfryngau cymdeithasol, i ryw raddau o leiaf, wedi cael effaith ar eu llesiant. Roedd llawer o'r farn bod cyfryngau cymdeithasol wedi rhoi'r gallu i'r cyhoedd fynegi eu barn heb unrhyw ganlyniadau (enllibion a sarhad) sy'n effeithio ar lesiant cynllunwyr. Adroddwyd ei fod yn creu amgylchedd ar gyfer camwybodaeth ac i ymgyrchwyr negyddol sgiwio trafodaethau.

> **"Mae'r llwyth gwaith wedi cynyddu'n aruthrol ochr yn ochr â'r ffaith fod llai o staff. Mae gennym ni lwyth achosion mwy a mwy cymhleth nad erioed, gyda mwy o wrthwynebiadau, ceisiadau rhyddid gwybodaeth, cwynion ac ymholiadau gan Aelodau nag erioed i'w hystyried ac ymateb iddynt (oherwydd cyfryngau cymdeithasol)."**

# 6. Atebion a Awgrymir

Gwahoddodd yr arolwg ymatebwyr i gynnig atebion i faterion a godwyd a chyflwynir y rhain yma. Nid yw'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys yma o reidrwydd yn dynodi bod RTPI na Llywodraeth Cymru yn cytuno â nhw nac yn gallu eu gweithredu.

## 6.1 Adnoddau Sector Cyhoeddus

Codwyd yr angen am fwy o adnoddau ar gyfer cynllunio gan y rhan fwyaf o ymatebwyr fel y prif ateb i broblemau llwyth gwaith. Bydd gan y term adnoddau wahanol ystyr i wahanol ymatebwyr, mae rhai yn cynnig esboniad manwl ar hyn tra bod eraill yn cyfeirio'n syml at yr angen am adnoddau. At ddiben y crynodeb hwn, cymerir bod 'adnoddau' yn cynnwys staffio (recriwtio a chadw), hyfforddiant, cyllid, cyflogau, amser i wneud y swydd yn iawn, TG a chynllunio digidol.

[11] https://www.llyw.cymru/cynllunio-datblygiadau-mawr-canllawiau-ar-ymgynghori-cyn-cyflwyno-cais

Cynigiodd un ymatebwr:

> **“ddatganiad consensws gydag amrywiaeth o sefydliadau, undebau, ACLlau, cyrff trydydd parti / rheoleiddio ar ba mor brin yw adnoddau ar draws y diwydiant … gan ei gwneud yn eglur bod Brexit, Covid a gofynion amgylchedd newydd enfawr wedi troi’r fantol i wasanaeth a oedd eisoes wedi’i lesteirio gan danariannu cenedliadol.”**

### 6.1.1 Ffioedd

Roedd galwad eglur i adolygu ffioedd ceisiadau cynllunio a neilltuo cyllidebau ACLlau i ddarparu gwasanaethau, i dderbyn gydag unrhyw gynnydd i ffioedd bod angen i’r gwasanaeth wella’n amlwg.

> **“Mae ymgeiswyr yn talu ffioedd i’w ceisiadau gael eu trin yn effeithlon, nid i ariannu holl adrannau eraill y Cyngor. Mae adrannau rheoli wedi’u tanariannu’n gritigol o ganlyniad i ffioedd ymgeisio yn cael eu trosglwyddo i wasanaethau eraill.”**

Mae “*angen edrych ar adfer costau llawn. Er enghraifft, mae’r ffi cais cynllunio ar gyfer un annedd yn ffracsiwn o gost y prosiect cyfan*.”

### 6.1.2 Awdurdodau Cynllunio Lleol

> **“Byddai cynorthwyo ACLlau yn helpu’r sector preifat yn uniongyrchol.”**

Mwy o staff / cyllid adnoddau / capasiti oedd y prif awgrym a wnaed gan ymatebwyr yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyllid i staffio timau cynllunio yn ddigonol, gan gydnabod yr angen taer am raddedigion, cynllunwyr profiadol a chynllunwyr arbenigol a’r angen i’r rhain fod yn hygyrch. Mae canlyniadau’r arolwg yn awgrymu bod swyddogion ACLl, ers y pandemig, yn aml yn ymddangos yn llai amlwg a hygyrch i’r rhai sy’n ceisio ymgysylltu â maes cynllunio. Fodd bynnag, mae’r arolwg hefyd yn awgrymu bod swyddogion ACLl yn cael trafferth yn ymdopi â negeseuon e-bost parhaus ac ymgeiswyr sydd weithiau’n drafferthus. Mae hon yn sefyllfa anobeithiol sydd angen sylw cyn iddi waethygu.

Yn gysylltiedig â hyn, y mae’r alwad gan ACLlau am fwy o barth at y swyddogaeth a’r penderfyniadau, gan y cyhoedd a hefyd cymorth yn fewnol o fewn ALlau. Galwyd am ragor o gymorth corfforaethol yn hyn o beth.

Codwyd swyddogaeth gweinyddiaeth gynllunio yng nghyswllt y cwestiwn hwn a’r cyfle am ragor o gymorth i gynllunwyr ar ddilysu ac ati.

Awgrymwyd gweithio mwy clyfar drwy’r broses i gynorthwyo’r sector preifat. Awgrymodd un ymatebwr ddulliau tîm o ymdrin â cheisiadau mawr a chodwyd swyddogion ACLl hygyrch / y gellir cysylltu â nhw dro ar ôl tro.

### 6.1.3 Arbenigeddau ategol eraill ac Ymgyngoreion Statudol

Codwyd adnoddau ar gyfer ymgyngoreion statudol a gwasanaethau eraill dro ar ôl tro hefyd, yn enwedig yr angen am fwy o swyddogion priffyrdd ac ecolegwyr, a mwy o adnoddau ar gyfer Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru. Galwyd am ymatebion gwell a mwy prydlon gan ymgyngoreion statudol a chyngor a chyfathrebu gwell gyda Llywodraeth Cymru.

Awgrymwyd y dylid hyrwyddo gwell cyfathrebu gyda’r nod o wella cysylltiadau ar draws pob rhanddeiliad.

Argymhellwyd angen i archwilio swyddogaeth cyrff arbenigol, gan gynnwys Comisiwn Dylunio Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Cymorth Cynllunio Cymru, gyda'r nod o ddeall ac archwilio'r rhan y gallant ei chwarae o ran cefnogi ACLlau ar gamau allweddol ac a ellir darparu adnoddau iddynt mewn ffordd sy'n galluogi mwy o gymorth ar gamau allweddol i ACLlau unigol.

Mae anghenion gofal iechyd y tu allan i gwmpas yr ACLl ac yn dibynnu'n llwyr ar wybodaeth trydydd parti sydd ar gael yn barod er mwyn asesu angen. Awgrymwyd bod angen i fyrddau iechyd lleol neilltuo adnoddau ar gyfer yr ymgysylltu hwn.

Nodwyd mynediad at staff arbenigol a phrofiadol fel angen:

> **"Gallu cysylltu ag ymgyngoreion a'u bod yn barod i fynychu cyfarfodydd personol, trefnu trafodaeth bord gron i drafod materion anodd; osgoi datganiadau diofyn."**

## 6.2 Cydweithredu / cyfathrebu proffesiynol

Cynigodd aelod preifat ateb i broblemau llwyth gwaith ar ffurf gwell cyfathrebu rhwng sectorau:

> **"…rwy'n credu bod gwell cyfathrebu rhwng asiantau a chynllunwyr yn arbennig o fuddiol i'r ddwy ochr. Rwy'n ymwybodol y gall awdurdodau cynllunio fod yn amddiffynnol iawn am fforymau ond rwy'n credu bod esbonio cyd-destun deddfwriaethol cynllunio er enghraifft o ran pam y gofynnir am bethau, yr hyn sy'n newydd ac ati bob amser yn werth chweil ac yn helpu i osgoi gwrthdaro. Dylai hefyd fod yn ffordd o dderbyn adborth - y ddwy ffordd. … Nid yw agwedd 'nhw a ni' y mae rhai awdurdodau cynllunio wedi ei dangos yn ystod cyfnod y pandemig wedi gwneud dim i gynorthwyo'r broses gynllunio a chael gwared ar rwystrau."**

Codwyd dull rhagweithiol cydweithredol gyda datblygwyr / y sector preifat a gwell dealltwriaeth o'r ddwy 'ochr', ac roedd yr awgrymiadau yn cynnwys: datblygwyr yn ymgysylltu'n well â'r broses cyn ymgeisio, gwell integreiddiad â'r trydydd sector, gwasanaethau a rennir ledled Cymru (yn enwedig gwasanaethau amgylcheddol) a rhannu arferion gorau.

Codwyd gwell cydweithredu a chydweithio, gan gynnwys cyfathrebu, disgwyliad, sylwadau adeiladol gan yr ACLl sy'n helpu i nodi atebion ac ati a fydd yn helpu i wella ansawdd yn y broses fel mater pwysig. Nodwyd angen am well ymgysylltiad rhwng rhanddeiliaid yn gynnar yn y broses ymgeisio.

> **"Mwy o gydweithredu rhwng ymgynghorwyr preifat ar gyfer lleisiau mwy eglur ar faterion – mae gan y sector cyhoeddus lais trwy POSW."**

Codwyd gwell cyswllt â Llywodraeth Cymru. Gofynnodd un ymatebwr am y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector preifat, ac a oes ganddynt fynediad at hysbysiadau Llywodraeth Cymru, fel sydd gan ACLlau.

> **"Ymgorffori cynllunio ar gamau cynnar unrhyw waith sy'n canolbwyntio ar ddefnydd tir. Enghreifftiau diddiwedd o gynllunio yn cael ei ystyried ar y funud olaf ac yn anochel yn gofyn cwestiynau y mae'n rhy hwyr i'w hateb. Mae cynllunio yn broblem wedyn."**

## 6.3 Datblygu gweithwyr ein hunain

Cyfeiriodd rhai at weithio ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd i annog lleoliadau a cheisiadau graddedigion.

Gallai cyflwyno cynllun hyfforddeion dalu ar ei ganfed yn y dyfodol o ran olyniaeth. Awgrymwyd mentora staff hefyd fel ffordd ddefnyddiol o fuddsoddi mewn staff.

Roedd creu swydd gradd gyrfaol yn rhywbeth yr oedd un rheolwr cynllunio mewn ACLl yn gobeithio gallu ei gyflawni fel ateb recriwtio posibl yn y dyfodol. Gallai mwy o gyfleoedd / datblygiad gyrfaol a chyfleoedd gwell i wneud swyddi yn fwy deniadol helpu i gadw staff, sy'n broblem sy'n cael ei chodi drwy'r arolwg.

Cwestiynodd un ymatebwr a yw pynciau'n gysylltiedig â chynllunio yn dal yn ddeniadol i fyfyrwyr. Mae diffyg ymgeiswyr priodol wrth recriwtio yn adlewyrchu'r angen am gydweithio agos gyda phrifysgolion a'r sector addysg, RTPI ac ati.

Roedd ymatebwr arall yn teimlo y gallai prentisiaethau neu gyllid graddedigion gynorthwyo'r system gynllunio, gan ofyn *"Pam nad yw'r llwybr prentisiaeth yn Lloegr ar gael yng Nghymru? Mae angen staff ychwanegol arnom ni ar frys. A all Llywodraeth Cymru ystyried cefnogi cyllid i raddedigion ymgymryd â graddau meistr cynllunio?"*

Roedd creu *"cynlluniau lleoliad ledled y wlad ar gyfer pob swydd gynllunio, wedi'u hariannu'n rhannol er mwyn galluogi cyfleoedd, profiad … ac ati"* yn ateb arall a gynigiwyd i gynyddu capasiti yn y dyfodol.

## 6.4 Hyfforddiant

Codwyd yr angen am hyfforddiant fel ateb dro ar ôl tro, gan gynnwys darparu hyfforddiant i Aelodau ACLl yn ogystal â swyddogion, ynghyd â dysgu a rennir ledled Cymru. Roedd un ymatebwr yn teimlo bod angen hyfforddiant, yn hytrach na gorfod 'hunan-addysgu'. Gallai gweithgorau rhanbarthol a chenedlaethol sefydledig helpu i gefnogi neu ddatblygu'r ateb hwn ymhellach.

Gwnaed awgrym o hyfforddiant i reolwyr, ochr yn ochr â rhagor o adnoddau, i helpu rheolwyr i gynorthwyo eu staff i reoli eu llwythi gwaith a'u hamser yn fwy effeithiol yn y dyfodol.

Codwyd hyfforddiant hefyd ar gyfer ymgyngoreion statudol ac ymgynghoriaethau / asiantau sector preifat (i wella ansawdd ceisiadau) ac aelodau etholedig.

Roedd thema amgylcheddol gref i'r anghenion hyfforddi a nodwyd ar draws yr ymatebion, er enghraifft roedd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn un o lawer o faterion a godwyd o ran hyfforddiant.

## 6.5 Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Cefnogaeth / ymwybyddiaeth i'r proffesiwn – sy'n cael ei waldio'n barhaus mewn cyfryngau lleol fel llwgr neu waeth pan fo'r penderfyniadau y maent fwyaf dig amdanynt i bob pwrpas (yn enwedig yn lleol) yn cael eu gwneud ar lefel pwyllgor.

Dylid adolygu effeithiolrwydd gofynion yr Ymgynghoriad Cymunedol Cyn Ymgeisio gyda'r nod o sicrhau ymgynghori cynharach â'r gymuned, a chynnwys Comisiwn Dylunio Cymru, mewn llawer o gynigion datblygu mawr. Mae canllawiau 2017 ar Ychwanegu Gwerth yn dal i fod yn sail gadarn ar gyfer cynnydd ond awgrymwyd bod angen dull statudol o'u gorfodi. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle i harneisio unrhyw arbenigedd perthnasol yn y gymuned heb danseilio swyddogaeth yr ACLl.

Roedd angen a nodwyd i greu rhyw fath o atebolrwydd i reoli cyfryngau cymdeithasol. Mae angen arferion gorau ar reoli sarhad ac i gyflogwyr eu sicrhau.

> **"Dylid rhoi hyfforddiant ar sail ddiofyn i bob swydd cynllunio ar sut i ymdrin â gwrthdaro ymosodol, cwsmeriaid anhapus, sut i dawelu galwadau ffôn ymosodol, gan fod hyn yn gymaint o ran o ofynion y swydd â dehongli deddfwriaeth / prosesu ceisiadau ac ati."**

## 6.6 Gwleidyddion a Phwyllgorau Cynllunio

Roedd rhai awgrymiadau manwl ar gyfer mynd i'r afael â gweithrediad pwyllgorau cynllunio, gan gynnwys cyflwyno isafswm o 12 o aelodau ar Bwyllgor Cynllunio; rheolau i ddim Cynghorydd yng Nghymru i fod yn aelod am fwy na dau dymor yn olynol. Awgrymwyd bod angen cymorth i wleidyddion wneud penderfyniadau ar lefel Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Codwyd yr angen am hyfforddiant a chymorth i helpu Aelodau i ddeall materion cymhleth yn ymwneud â CDLl a chynigion datblygu.

## 6.7 Cynllunio Digidol

Awgrymwyd atebion TG cyson fel ateb i broblemau llwyth gwaith, a allai alluogi gwell cydweithio neu sail dystiolaeth ar y cyd yn y dyfodol.

Un neges gyffredin oedd yr angen am "*sefydlogrwydd digidol*" i oresgyn yr heriau amser a dilynol sy'n gysylltiedig â newid systemau yn gyson. Cafwyd llawer o awgrymiadau ar gyfer atebion digidol posibl. Fodd bynnag, yr angen cyffredin yw i nodi trywydd a chael buddsoddiad ledled Cymru mewn dull digidol newydd.

Galwodd un ymatebwr am *"gymorth cyllid i ddiweddaru systemau TG polisi (defnyddir cronfa ddata mynediad 1995 i ddarparu CDLl ar hyn o bryd)."*

## 6.8 Newidiadau i'r System Gynllunio

Rydym yn eglur nad yw'r Sgwrs Fawr yn adolygiad o'r system gynllunio, ac eithrio lle gallai gynnig canlyniad cadarnhaol i fynd i'r afael â llesiant y rhai sy'n gweithio ynddi. Cynigiwyd llawer o atebion eang i lwyth gwaith o ran rheoliadau sy'n effeithio ar weithrediad y system gynllunio a pholisi meysydd pwnc penodol, a chaiff y rhain eu crynhoi isod:

- Gwneud Datganiad Draenio TAN15 yn ofyniad dilysiad cynllunio;
- Tynnu rhai pethau oddi wrth gynllunio ac i reoliadau adeiladu;
- Symleiddio polisi, mae gormod o bwyslais ar asesiadau effaith;
- Gwneud prosesu ceisiadau yn symlach;
- Arbenigedd mwy arbenigol wrth ddiweddaru deddfwriaeth, TANs a Pholisïau ac ati.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y terfyna amser targed o 8 / 13 wythnos yn hen ffasiwn a bod angen eu hadolygu, a chafwyd awgrym i gael gwared ar y ddarpariaeth ad-daliad cais cynllunio. Gallai hyn ymgorffori rheoli perfformiad realistig a chymhellion, yn ogystal â helpu i reoli disgwyliadau. Galwyd am newid i bwyslais ar ganlyniadau ac nid amserlenni.

Ceir cynlluniau[12] i gyflwyno Bil Cydgrynhoi Cynllunio a fydd yn cynorthwyo i fod yn eglur ynghylch y gyfraith gynllunio yng Nghymru, sydd wedi'i wasgaru ar draws nifer o Ddeddfau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, awgrymwyd yn y byrdymor y dylid gwneud fersiwn gyfredol o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) ar gael i oresgyn yr amser sydd ei angen i egluro rhai o'r defnyddiau llai cyffredin yn haws a chyflwyno'r newidiadau amrywiol mewn fformat wedi'i gydgrynhoi.

Galwyd am adolygiad o Gytundebau A106 a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i fynd i'r afael â'r oediadau sylweddol ac adnoddau amser. Roedd hyn yn cynnwys yr angen am hyfforddiant a chyllid i swyddogion ag arbenigedd mewn hyfywedd gael eu hymwreiddio mewn timau cynllunio. Mae hwn yn fater sy'n erydu cyfraniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol/A106 ac felly dylid rhoi mwy o sylw iddo. Dylid mabwysiadu dull cenedlaethol o ymdrin â hyfywedd yn ei gyfanrwydd, gan sicrhau ei fod yn hyblyg i gymryd amgylchiadau lleol i ystyriaeth. Awgrymwyd hefyd bod angen cael gwared ar gyfuno cyfraniadau.

Er bod rhai sylwadau am gamau penodol yn y broses, er enghraifft:

> **"Cael gwared ar y Cam Strategaeth a Ffefrir a dychwelyd i'r cam cynllun Drafft."**
> **"Cael gwared ar y gofyniad i'r sail dystiolaeth gael ei chyfieithu."**

Awgrymodd un ymatebwr gwell reolaeth rhaglen o CDLlau; galwodd eraill am gael gwared ar y 'dyddiad syrthio'n farw'. Dywedodd bod y broses safleoedd ymgeisiol yn cymryd amser ac amlygwyd asesiadau effaith hefyd, ag ymatebwyr o'r farn eu bod yn feichus.

Roedd amrywiaeth sylweddol o atebion i ba un a oedd materion datblygu polisi y gellid mynd i'r afael â nhw trwy newidiadau i bolisi cenedlaethol. Rhestrir rhai ymatebion blaenllaw isod – er bod yr amrywiaeth yn eithriadol o eang.

> **"Er bod angen dull cyffredin, mae pob ardal yn wahanol ac mae ganddi ei nodweddion a'i materion ei hun, yn ogystal â'i ddull gwleidyddol ei hun, felly nid yw'n fater un ateb i bawb. Yn ogystal â hyn, dylai ardaloedd fod yn wahanol a ddim i gyd yn unffurf."**

> **"Mae angen mwy o feddwl cydgysylltiedig ar faterion penodol – gall SDCau, plannu, bioamrywiaeth, tirwedd, ecoleg ac ati weithio'n gydlynol i ddarparu atebion niferus trwy weithredoedd unigol."**

Mae ffosffadau a draenio wedi gwneud y system yn gymhleth - "*Mae'r system gynllunio yn adlewyrchu agenda wleidyddol (nad yw'n broblem ynddo'i hun) ond nid yw'r dulliau ganddo i weithredu - er enghraifft mae ffosffadau angen arweinyddiaeth nid gwagle / dadl - mae popeth yn stopio.*" Dylid dod a'r swyddogaeth Corff Cymeradwyo Draenio o dan gynllunio neu ddarparu mwy o adnoddau i ganiatáu iddynt ymdrin â'r ddwy broses statudol.

---

[12] www.llyw.cymru/dyfodol-cyfraith-cymru-rhaglen-hygyrchedd-2021-i-2026-html

**“Mwy o ganllawiau ar sut i fynd i’r afael â SDCau drwy’r broses gynllunio ac mae angen mwy o ystyriaeth o ran sut mae cynllunio a’r Corff Cymeradwyo Draenio yn integreiddio â’i gilydd.”**

## 6.9 Gweithio Rhanbarthol

Codwyd bwrw ymlaen â gweithio rhanbarthol clyfar fel ateb dro ar ôl tro, gyda chefnogaeth eang i sefydlu Cynlluniau Datblygu Strategol. Ochr yn ochr â hyn roedd awgrym i leihau baich sail dystiolaeth CDLlau a Chynlluniau Datblygu Strategol, sy’n dueddol o fod â thimau bach ac arbenigeddau cyfyngedig ar hyn o bryd sy’n aml yn golygu nad oes unrhyw opsiwn arall ac eithrio ei roi ar gontract allanol. Fodd bynnag, ychwanegodd eraill bwyll at weithio a chomisiynu rhanbarthol sy’n helpu ond nad yw o reidrwydd yn gwneud y broses ddim cyflymach gan fod rheoli ymgynghorwyr yn broses sy’n cymryd amser. Awgrymwyd y gellid sicrhau cymaint o adnoddau â phosibl trwy fynd ar drywydd Cynlluniau Datblygu Strategol a pharatoi CDLl 'ysgafn'.

**“Pan fydd darn o waith yn cael ei roi ar gontract allanol oherwydd diffyg adnoddau yn hytrach nag angen technegol rydych chi’n colli’r sail sgiliau a gwybodaeth fewnol yna.”**

Awgrymwyd gwasanaeth cyngor amgylcheddol rhanbarthol, ac felly hefyd gwasanaethau ar y cyd i wasanaethau arbenigol eraill fel cadwraeth a mwynau. Gallai hyn ddarparu mwy o staff, yn enwedig swyddogion arbenigol, gan greu mwy o gapasiti a gallu yn y system.

**“Mae gwell adnoddau mewn meysydd arbenigol yn ateb, ond ceir problemau recriwtio hysbys ar gyfer pobl â’r sgiliau priodol.”**

**“Y dull a ddefnyddir ar hyn o bryd yw gweithio ar y cyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yn y rhanbarth, a hefyd gyda sefydliadau allweddol fel Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru. Pan fo cyllidebau’n caniatáu, rydym yn defnyddio comisiynau allanol i gael y mewnbynnau arbenigol sydd eu hangen arnom ar bynciau arbenigol, ond ceir cyfyngiad i ba mor bell y gwnaiff cyllidebau ymestyn.”**

## 6.10 Rhannu Arferion Da

Er gwaethaf y pwyslais yn yr adroddiad hwn ar anawsterau darparu’r system gynllunio, yn bennaf oherwydd diffyg adnoddau, mae’n eglur bod gwaith da yn cael ei wneud a bod y system gynllunio yn gweithio. Amlygodd un ymatebwr yr angen i:

**“weiddi am y pethau da hefyd a sicrhau bod enghreifftiau cadarnhaol ac arferion gorau yn cael eu rhannu mor eang â phosibl.”**

# 7. Beth nesaf?

Bydd canfyddiadau'r Sgwrs Fawr yn cael eu darparu i'r Gweinidog Newid Hinsawdd mewn ymateb i'w chais ym mis Mehefin 2022.

Rydym yn sylweddoli nad yw'r materion a godwyd i Lywodraeth Cymru yn unig ymateb iddynt. Byddwn yn rhannu'r canfyddiadau yn fwy eang ac yn annog eraill i ymateb i'r dystiolaeth eglur o'r gwaith hwn.

Bydd yr RTPI yn cyhoeddi ei gynllun gweithredu ei hun i ymateb i'r materion a godwyd gan y Sgwrs Fawr i Gymru. Rydym hefyd yn cydnabod bod llawer o'r materion a godir yn bodoli ar draws y DU ac Iwerddon ac nad ydynt yn unigryw i Gymru ac felly byddwn yn ystyried hyn yn ein hymateb i'r dystiolaeth werthfawr hon.

## Os hoffech ragor o wybodaeth am waith polisi RTPI Cymru

www.rtpi.org.uk/policyandresearchcymru

**RTPI - Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol**

walespolicy@rtpi.org.uk

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol,
Stiwdio 107, Ardal Greadigol, Arcêd Morgan
Caerdydd CF10 1AF

41 Botolph Lane, Llundain EC3R 8DL.

Elusen Gofrestredig yn Lloegr (262865) a’r Alban (SC037841)

